

## Bundle Health Board - Welsh 23 January 2020

1.30pm Neuadd Reichel, Ffordd Ffriddoedd, Bangor LL57 2TR

- 1 Agenda
  - Agenda Board Trustees 23.1.20 V1.0 Cymraeg.docx
- 2 20.1 Cyfrifon ac Adroddiad Blynnyddol 2018/19
  - 20.1b Annual Report & Accounts 2018-10 Appendix 1 Cymraeg.pdf
- 3 20.3 Cyflwyniad
  - 20.3 Presentation.pptx

**Agenda**  
**Ymddiriedolwyr y Bwrdd Iechyd**

**Dyddiad** 23/01/2020  
**Amser** 13:30 - 14:00  
**Lleoliad** Neuadd Reichel, Ffordd Ffriddoedd, Bangor LL57 2TR  
**Cadeirydd** Mr Mark Polin

---

- 20/1 Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol- Mrs Sue Hill**
- 20/2 Diweddariad Rheoleiddio ac Arweiniad Elusen - Mrs Kirsty Thomson**
- 20/3 Crynodeb blynyddol o weithgaredd cefnogwyr BIPBC Trydydd Sector ac Awyr Las - Mrs Kirsty Thomson**
- 20/4 Rhagolwg / Cwestiynau - Mrs Kirsty Thomson**



# Awyr Las Blue Sky

Elusen GIG Gogledd Cymru  
The North Wales NHS Charity



## Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol 2018/19



t17



t23



t21





- 1 Croeso gan y Llywydd Anrhydeddus
- 3 Beth mae'r elusen yn ei wneud
- 5 Gwerthoedd, Bwriad a Phwrpas
- 7 Trosolwg sydyn o'r flwyddyn
- 9 Dathlu Pen-blwydd y GIG yn 70 oed
- 11 Grantiau
- 11 Laser CO2 ar gyfer Ysbyty Glan Clwyd
- 12 Offer Cychwynnol ar gyfer Canolfan Ymchwil Clinigol Gogledd Cymru
- 13 Therapiau cyflenwol mewn unedau canser
- 14 Ymchwil clefyd cronig yr arenau
- 14 Gwelyau i rieni a gofalwyr ar ward y plant
- 15 **Grantiau: Calonnau a Meddyliau**
- 15 Aromatherapi ar Uned Feddygol Lem
- 16 Therapi cerdd er mwyn cynorthwyo adsefydliad strôc
- 17 #Tîmlrfon
- 18 Yr Ymddiriedolaeth Livsey
- 19 Cynllun gwirfoddoli'r Robiniaid
- 21 Cefnogwyr
- 21 Partneriaeth gorfforaethol â Rhwydweithiau Egni SP
- 22 Cerdded ar gyfer Dementia
- 23 Tesla Owners UK
- 23 Malcolm Pitts
- 24 Tour de Trio (Taith feicio o Lundain i Paris)
- 24 Byd Gerddi Gogledd Cymru
- 25 **Adolygiad Pum Mlynedd**
- 27 Llywodraethu
- 29 Aelodau'r Bwrdd
- 33 Perfformiad
- 34 Rhoi grantiau
- 35 Crynodeb ariannol
- 36 Iechyd ariannol
- 37 Dadansoddiad risg
- 39 Cynlluniau'r dyfodol
- 40 Prif amcanion
- 40 Gwelededd
- 41 Polisi Cronfa wrth Gefn
- 42 Rhwydweithiau ehangach
- 43 Cyfrifon
- 45 Datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn
- 46 Mantolen
- 48 Nodiadau ar y cyfrifon
- 68 Datganiad o gyfrifoldebau Cynrychiolwyr Cyllid yr Ymddiriedolwyr
- 69 Datganiad o gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr
- 70 Adroddiad archwilio

†9



†42



†12



†13



†19





Rwy'n falch o lawer o bethau rydym oll wedi cyflawni yng Nghymru, ond rwy'n credu mai un o'r pethau gorau sydd gennym yma yng Nghymru yw ein Gwasanaeth Iechyd Gwladol.



Rwyf wrth fy modd eich bod yn darllen yr Adroddiad Blynyddol hwn, oherwydd os ydych chi, mae'n golygu eich bod chi, fel finnau, wir yn meddwl ei bod yn bwysig sicrhau bod yr unigolion mwyaf bregus yng Ngogledd Cymru yn gallu cael y gofal a'r driniaeth gorau pan mae arnynt ei angen fwyaf.

Mae Elusennau'r GIG yn awr wedi bodoli ers 70 mlynedd, yr un cyfnod â'r GIG ei hun.

Rydym ni yng Ngogledd Cymru yn lwcus bod gennym dîm ymroddedig o nyrs, meddygon, llawfeddygon a staff cefnogi sy'n dangos trugaredd ac ymrwymiad gwyb, arloesedd a phroffesiynoldeb.

Rwy'n credu yn gryf y dylem ddathlu eu llwyddiannau, ond rwy'n teimlo ein bod hefyd angen cydnabod cyfyngiadau ein GIG.

Nid yw'r GIG erioed wedi gallu ariannu **popeth** yr hoffem yn ein hysbytai neu yn ein gwasanaethau gofal iechyd cymuned.

Rydw i'n teimlo ein bod ni'n ffodus o gael Awyr Las, ein Helusen y GIG, sy'n chwarae rôl allweddol i wella ein gwasanaethau gofal iechyd yng Ngogledd Cymru.

Mae rhoddion i'r elusen hon yn rhoi'r adnoddau y mae ein timau GIG amrywiol eu hangen fel y gallent ymdrechu'n gyson tuag at well darpariaeth gofal iechyd yng Ngogledd Cymru, a gwella iechyd a lles ein teuluoedd ar draws y rhanbarth.

Yn yr adroddiad hwn, byddwch yn gweld rhai enghreifftiau gwyb o sut mae hyn yn digwydd.

Yn 2018, y flwyddyn y gwnaethom ddathlu pen-blwydd y GIG yn 70, cefais y pleser o gefnogi ymgyrch codi arian #Rhoi70 Awyr Las.

Bu i mi gyfarfod â nifer o unigolion rheng flaen yr elusen sy'n gwneud penderfyniadau: y nyrsys, meddygon, radiograffwyr, llawfeddygon a staff cynorthwyl sy'n gyfrifol am flaenoriaethu sut ddylai rhoddion gael eu cyfeirio er mwyn helpu ein cleifion orau.



# Gwir Anrhydeddus Arglwydd Barry Jones P.C.

Bu i mi gymryd rhan ym Mharti Mawr cyntaf y GIG ym mis Gorffennaf, a gwelais y pleser ar wynebau cleifion pan drefnodd staff a gwirfoddolwyr De Parti a gweithgareddau ychwanegol ar wardiau ysbyty.

Roeddwn i wrth fy modd yn gweld eraill, yn cynnwys busnesau lleol a sefydliadau cymuned, hefyd yn cefnogi'r ymgyrch hon.

Dewisais i fod yn rhan o Awyr Las gan fy mod eisiau dangos fy ngwerthfawrogiad a hefyd fy mod wedi gweld dros fy hun y gwahaniaeth y mae rhoddion a roddir drwy'r elusen yn ei wneud i gleifion a'u teuluoedd.

Newidiadau bach, o gyflenwadau celf ychwanegol i ddiddanu plant neu gyflwyno therapïau cyflenwol, ar gyfer unigolion sy'n cael triniaeth cancer. Ac yna'r pethau mawr, er enghraifft offer arbenigol newydd a chyfleusterau modern.

Mae'r newidiadau hyn yn cael eu hariannu drwy'r elusen, ac maent yn cael effaith ar gleifion.

Nid yw nifer ohonom yn ymwybodol ein bod wedi cael ein heffeithio gan haelioni ein rhoddwyr sy'n rhoi i Awyr Las pan rydym yn mynd i'n hysbytai ac yn defnyddio ein gwasanaethau cymuned.

Yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, mae'r elusen wedi ariannu dros **£12 miliwn** o welliannau i wasanaethau gofal iechyd y GIG lleol.

Mae hyn yn cynnwys ariannu offer o'r radd flaenaf, cyfleusterau newydd, prosiectau arbennig, a gwasanaethau ychwanegol, addysg a rhaglenni ymchwil.

Eleni, mae Awyr Las wedi gallu rhoi **£1.7 miliwn** i gefnogi gwasanaethau GIG ar draws Gogledd Cymru.

Rwy'n hynod o falch o'r effaith y mae'r elusen wedi ei gael ar ein gwasanaethau gofal iechyd lleol, a dwi'n teimlo y dylem i gyd sydd wedi rhoi drwy Awyr Las fod yn falch.



Ni fyddai unrhyw rai o'r gwelliannau effeithiol rydym yn clywed amdanynt yn yr adroddiad hwn yn bosibl heb angerdd y rhai sy'n galon i'r elusen: staff GIG y rheng flaen, a'r gwirfoddolwyr sy'n eu cefnogi. Ni fyddai'n bosibl heb unigolion fel chi yn bendant.

Ar ran holl staff y GIG, a chleifion sydd wedi elwa o Awyr Las, hoffwn **ddiolch i bawb** sy'n rhoi'n ddiflino i gefnogi'r elusen.

I'r cleifion, eu teuluoedd a'u ffrindiau. I staff y GIG a'u partneriaid.

I'n plant ysgol, busnesau a grwpiau cymuned lleol; i'n Hymddiriedolaethau a

Sefydliadau cenedlaethol.

## Mae'r rhain yn unigolion hyfryd.

Ers i mi fod yn unigolyn ifanc, rwyf wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y gofal a'r driniaeth y mae cleifion yn eu cael yma yng Ngogledd Cymru bob amser yn gwell.

Rwy'n addo i barhau i wneud hynny drwy barhau i ymgyrchu dros ein GIG, a drwy gefnogi Awyr Las. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rwyf wedi dod i sylweddoli bod y pethau ychwanegol pwysig y mae'r elusen yn eu cynnig, sy'n **mynd y tu hwnt** i beth all y GIG ei ddarparu, nid yn unig yn llonni diwrnodau cleifion.

Weithiau mae'r offer, gwelliannau a'r ymchwil y mae Awyr Las yn eu hariannu yn rhoi diwrnodau, weithiau blynyddoedd ychwanegol i gleifion gyda'r rhai sy'n annwyl iddynt. Mae hynny i mi, yn amhrisiadwy.

Da iawn Awyr Las, ein Helusen GIG Gogledd Cymru, ac i'n Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Fel rydym yn paratoi at ddegawd newydd, gobeithir y bydd y ddau yn cael eu trysori gennym i gyd, ac y byddent yn gallu ffynnu, fel bod **pawb** yng Ngogledd Cymru yn cael y cyfle i fyw bywydau iach, hapus.

**Y GWIR ANRHYDEDDUS  
ARGLWYDD BARRY JONES P.C  
LLYWYDD ANRHYDEDDUS**



# Beth mae'r elusen yn ei wneud



Nifer y cronfeydd



**412**

Incwm yn 2018/19



**£2M**

Ysbytai llym yng  
Ngogledd Cymru



**3**

Safleoedd cymuned  
yng Ngogledd Cymru



**45**

Poblogaeth a  
wasanaethir  
gan BIPBC



**678K**

**Yn sicrhau bod pobl ar draws Gogledd Cymru yn elwa o well gwasanaethau pan fydd arnynt eu hangen fwyaf.**

Mae Awyr Las (teitl swyddogol Elusen Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Elusennau cysylltiedig eraill) yn Elusen gofrestrdedig (rhif cofrestrdedig 1138976), ac mae ganddi gyfansoddiad dan ddogfen ymddiriedolaeth dyddiedig 23 Medi 2010.

O fewn cofrestrriad grŵp yr elusen, mae dwy elusen atodol: Elusen Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac Apêl Canser Gogledd Cymru.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw ymddiriedolwr corfforaethol cyfreithiol yr Elusen. Mae hyn yn golygu fod, er bod aelodau'r Bwrdd yn gyfrifol am weinyddu'r

cronfeydd, nid ydynt yn ymddiriedolwyr unigol yr Elusen.

Awyr Las yw'r elusen ymbarél ar gyfer dros 400 o Gronfeydd Elusennol. Gyda'i gilydd, mae'r cronfeydd hyn yn cefnogi wardiau, unedau, adrannau, prosiectau cymuned ac arbenigeddau ar draws Gogledd Cymru.

Mae rhoddion a roddir i'r Elusen yn helpu staff ymroddedig y GIG mewn ysbytai a chymunedau ar draws Gogledd Cymru i gynnig gwell gwasanaeth gofal iechyd, gan gynnig y gofal a'r driniaeth orau sydd ar gael i gleifion a'u teuluoedd.

Staff rheng flaen sy'n penderfynu ar flaenoriaethau'r Elusen.





RHODDWDYD  
**96**  
 %  
 RODDION  
 I GRONFEYDD  
 PENODOL



### Beth sy'n cael ei ariannu

Mae Awyr Las yn ariannu offer o'r radd flaenaf a chyfleusterau newydd; hyfforddiant staff ychwanegol ac ymchwil o'r radd flaenaf; prosiectau arbennig a gwasanaethau ychwanegol; therapïau cyflenwol a phethau ychwanegol i wneud cleifion yn fwy cyfforddus, sy'n mynd gam ymhellach na beth all cyllid y GIG ei ddarparu.

Ers 2010, mae Awyr Las wedi ariannu dros £25m o welliannau i wasanaethau gofal iechyd ar draws y rhanbarth diolch i haelioni pobl leol, Sefydliadau cenedlaethol, a chleifion diolchgar o bob cwr.

Mae'r gefnogaeth hon wedi gwneud gwir wahaniaeth i fywydau cleifion a'u teuluoedd, ac mae rhai o'r unigolion mwyaf bregus ein cymuned wedi elwa ohoni.

Gan nad yw'r Elusen yn cymryd lle cyllid GIG statudol, mae eich rhoddion yn wirioneddol yn gwella'r gofal sydd ar gael i bobl leol mewn ffyrdd na fyddai'n bosibl fel arall.

### Dyrannu cyllid

Mae'r elusen yn ariannu prosiectau gofal iechyd mewn ysbytai a'r gymuned.

#### Mewnol

Mae cyllid ar gael i aelodau o staff BIPBC i'w defnyddio er budd ein cleifion yn yr ysbyty neu leoliad gofal iechyd cymuned.

#### Allanol

Mae arian ar gael i Sefydliadau Trydydd Sector sy'n gweithio mewn partneriaeth â BIPBC ar brosiectau sy'n gysylltiedig ag iechyd o unrhyw le yng Ngogledd Cymru, neu sefydliadau addysg uwch sy'n cynnal prosiectau ymchwil BIPBC.

### Hyd at £5,000

Gall Cynghorwyr Cyllid awdurdodi prosiectau sy'n costio £5000 a llai (staff BIPBC sy'n gweithredu fel gwarcheidwad ar gyfer eu cronfeydd). Mae hyn yn galluogi staff y rheng flaen i gael mynediad yn sydyn at gyllid fydd yn eu galluogi i weithredu syniadau fydd yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i'w cleifion.

### Dros £5,000

Mae prosiectau o werth mwy yn mynd drwy broses graffu ac ymgeisio ffurfiol yr Elusen. Mae hyn yn sicrhau bod prosiectau yn gadarn, ac y byddant yn gwneud y defnydd gorau o arian yr elusen, ac yn lleihau dyblygu.

### Cronfeydd penodol

Mae'r cronfeydd hyn yn perthyn i'r ward, gwasanaeth neu adran y mae'r gronfa wedi cael ei halinio iddi/iddo. Pan fo rhoddwyr yn dewis rhoi i faes gofal iechyd penodol, mae eu rhodd yn mynd i gronfa benodol. Dim ond i ariannu prosiectau o fewn y maes gofal iechyd hwnnw y gellir defnyddio cronfeydd penodol.

### Cronfeydd amhenodol

Pan fo rhoddwr yn dewis rhoi i'r elusen heb nodi maes gofal iechyd, mae eu rhodd yn cael ei roi tuag at gronfeydd amhenodol. Mae'r rhoddion pwysig hyn yn helpu holl staff BIPBC i gael mynediad at grantiau er budd ein cleifion, hyd yn oed os nad oes ganddynt gronfa benodol i'w defnyddio.



Awyr Las  
 Blue Sky



# Gwerthoedd, Bwriad a Phwrpas

**Cenhadaeth drosfwaol yr Elusen yw gwella gallu BIPBC i wella iechyd a lles pobl ledled Gogledd Cymru a darparu gofal rhagorol.**

Mae'r Elusen yn bodoli am ddau reswm, y ddau ohonynt yr un mor bwysig ac mae'r ddau ohonynt yn cael effaith enfawr ar y gofal a'r driniaeth y mae cleifion yn eu derbyn.



## SICRHAU Y GALL BIPBC GYFLAWNI EI FLAENORIAETH STRATEGOL O WELLA GOFAL IECHYD

**SICRHAU BOD Y RHAI SYDD AM ROI YN ÔL I WASANAETHAU GOFAL IECHYD PENODOL YN GALLU GWNEUD HYNNY MEWN FFORDD SY'N CEFNOGI BLAENORIAETHAU LLEOL**

Mae Elusennau'r GIG wedi bodoli ers 1948 ac maent wedi chwarae rhan bwysig yn yr uchod o hyd, ond nawr mae eu hangen yn fwy nag erioed. Gan ein bod yn byw yn hirach, llawer ohonom â materion iechyd a chlefydau cymhleth, mae gwir angen cefnogaeth gan ffynonellau elusennol er mwyn darparu gofal rhagorol.

Yn draddodiadol mae'r Elusen wedi canolbwyntio ar gefnogi gofal eilaidd, yn enwedig gwasanaethau cancer, ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â dau fater pwysig:

- Mae naw deg y cant o'r gofal y mae pobl yn ei dderbyn yn dod o ofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol. Gyda'r cynnydd a ragwelir mewn achosion o ddementia a materion iechyd meddwl eraill, cancer, diabetes a chyflyrau'r galon, bydd gofynion cynyddol ar y gwasanaethau hyn.
- Mae anghydraddoldebau iechyd amlwg hefyd yng Ngogledd Cymru, gyda'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn debygol o fyw 13 mlynedd yn hwy mewn iechyd gwell na'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Yr her sy'n wynebu'r Elusen yw parhau i ddarparu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar wardiau ac adrannau mewn lleoliadau gofal eilaidd a sicrhau'r gefnogaeth i fynd i'r afael â'r ddau angen dybryd: gwella'r ddarpariaeth gofal sylfaenol a chymunedol a lleihau anghydraddoldeb iechyd.

### EGWYDDOR ARWEINIOL

Cleifion sydd wrth wraidd Awyr Las



### EGWYDDOR ARWEINIOL

Staff rheng flaen y GIG yw enaid anadl Las





**Mae Tîm Cefnogi'r Elusen- sy'n cynnwys staff cyllid, codi arian a staff cefnogi gweinyddol- yn bodoli er mwyn sicrhau y gellir cyflawni bwriad yr elusen.**

Y Tîm Cefnogi:

- Yn rheoli cyfrifon ariannol yr elusen, rhaglenni grantiau a phortffolio buddsoddi;
- Yn darparu cymorth ac arweiniad i'r Cynghorwyr Cronfeydd sy'n goruchwyllo gwahanol gronfeydd yr Elusen;
- Yn helpu unigolion sy'n codi arian sydd eisiau trefnu digwyddiadau a gweithgareddau er budd yr Elusen;
- Yn trefnu mentrau a digwyddiadau codi arian i godi arian er budd yr Elusen;
- Yn hyrwyddo'r Elusen i godi arian a chodi proffil o roi i bob gwasanaeth gofal iechyd, ac; Yn cadw mewn cysylltiad â'i gefnogwyr.

**MAE GWERTHOEDD  
YR ELUSEN  
YN ADLEWYRCHU  
RHAU'R  
BWRDD  
IECHYD**

1. Rhoi cleifion yn gyntaf
2. Gweithio gyda'n gilydd
3. Gwerthfawrogi a pharchu ein gilydd
4. Dysgu ac arloesi
5. Cyfathrebu'n agored ac yn onest

Mae'r Tîm Cefnogi hefyd yn sicrhau bod Awyr Las yn gwneud y mwyaf o'ch rhoddion, er enghraifft drwy ail hawlio miloedd o bunnoedd mewn Cymorth Rhodd yn flynyddol. Yn ogystal â hyn, mae'r Tîm Cefnogi yn darparu cymorth i elusennau annibynnol, fel Cyfeillion Ysbyty, sy'n darparu cefnogaeth elusennol uniongyrchol i BIPBC.



**£10,861**

**O RODD CYMORTH  
WEDI'I HAD-HAWLIO  
AR GYFER YR ELUSEN**



**EGWYDDOR  
ARWEINIOL**

**Bod yn driw i'r rhai  
sy'n cefnogi Awyr Las**





# Trosolwg sydyn o'r flwyddyn

## INCWM A FFYNONELLAU


# £1,950,000

Cyfanswm incwm yr elusen o roddion, chymynroddion, a chodi arian\*

\*ac eithrio buddsoddiadau



## DOSBARTHIAID GWARIANT 2018/19



Prosiectau Cyfalaf   
**£159,000**

Lles staff   
**£521,000**

Ymchwil   
**£102,000**

Lles cleifion   
**£962,000**

Eleni, bu i Awyr Las ariannu

**£1.7M**

o wasanaethau, gwelliannau  
a gweithgareddau ar draws  
Gogledd Cymru



**GAN GEFNOGI YSTOD EANG O WEITHGAREDDAU  
SY'N GYSYLLTIEDIG AG IECHYD:**



Gwell Gofal Cleifion



Offer a Chyfleusterau



Gwell Amgylcheddau



Y Celfyddydau mewn Iechyd



Hyfforddiant ac Addysg



Ymchwil a Datblygiad



## **GWARIANT MEWN MEYSYDD BLAENORIAETH**



Gofal Canser - £416,572 // 23% o gyfanswm y gwariant



Y Blynyddoedd Cynnar - £272,623 // 15%  
o gyfanswm y gwariant



Iechyd Meddwl - £60,688 // 3% o gyfanswm y gwariant





# 70 mlynedd o'r GIG

## Dathlu carreg filltir arbennig

Nododd 5 Gorffennaf 2018, 70 mlynedd ers geni'r GIG. Bu i gydweithwyr o wardiau, adrannau a gwasanaethau ar draws BIPBC ymuno yn y dathliadau, yn ogystal â chleifion, busnesau lleol, sefydliadau gwirfoddol a'r gymuned ehangach.



**Lansiwyd yr ymgyrch #Rhoi70 ym mis Ebrill, ac anogodd staff BIPBC a'r cyhoedd i gymryd rhan yn y dathliadau pen-blwydd.**

Gwahoddwyd unigolion i wneud ychydig o bethau syml er mwyn diolch i'r gwasanaethau GIG sydd bwysicaf iddynt.



Defnyddiodd yr ymgyrch y garreg filltir fel cyfle i ofyn i unigolion ymgymryd â gweithgaredd codi arian a oedd â'r thema 70.

O'r addewidion i redeg 70 milltir cyn diwedd y mis pen-blwydd, i weithgareddau a anelodd at godi £70; roedd y gweithgareddau #Rhoi70 yn amrywio, yn hael ac yn greadigol.

Anogwyd staff i gynnal te parti i'w cleifion ac aelodau tîm, gyda 85 o wahanol wardiau ac adrannau yn cynnal parti ar y pen-blwydd. Bu i 200 o unigolion fynychu'r prif bartïon "Te70", a gynhaliwyd yn y brif fynedfa yn y 3 ysbyty llym.

**Fe wnaethom gynnal digwyddiad gyda'r thema 'BLE MAE TE MAE GOBAITH'**



Bu i staff wisgo fel cymeriadau o "Call the Midwife" yn ein digwyddiad!

Cawsom arddangosfeydd gyda gwybodaeth am enedigaethau drwy'r 70 mlynedd ddiwethaf, a hen offer meddygol yn cael eu harddangos.

Fel diolch am eu gwaith caled, fe wnaethom wahodd staff sydd wedi ymddeol i fynychu, a chawsant baned o de a chacen.

Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr gyda chyn staff, staff presennol a staff y dyfodol yn dal i fyny ac yn rhannu straeon. Bu i bawb ei fwynhau yn fawr. Bu i ni godi £1,630 ar gyfer yr Uned Mamolaeth o'r diwrnod gwych hwn, sy'n llwyddiant mawr rydym yn credu.

**SUSAN HUGHES**

**BYDWRAIG  
YR UNED MAMOLAETH  
YSBYTY GWYNEDD**



BETH  
AM I NI  
GAEL  
PANED



### AR EICH MARCIAU, BAROD, POBWCH!

Fel rhan o'r dathliadau, gwahoddwyd staff BIPBC a'u ffrindiau a'u teuluoedd i gyflwyno cais i'r Gystadleuaeth gyntaf Addurno Cacen Awyr Las.

Bu i un deg naw pobydd gymryd rhan, gyda phleidlais gyhoeddus ar Facebook yn penderfynu ar y tri buddugol.

**BU I  
DROS  
5,000  
O UNIGOLION  
BLEDLEISIO**



## parkrun #GIG70



RHEDODD  
**350**  
YN  
Y PARKRUN



Ddydd Sadwrn 9 Mehefin, bu i dros 350 o unigolion (gyda nifer mewn gwsg ffansi thema'r GIG) gymryd rhan mewn parkrun arbennig yn Erddig i ddathlu pen-blwydd y GIG.

Roedd hwn yn rhan o fenter ledled y Deyrnas Unedig, ble gwnaeth 145,000 o unigolion gymryd rhan mewn parkrun cyfagos iddynt i ddathlu #GIG70.

Diolch i parkrun Conwy a gwirfoddolwyr parkrun Erddig a ymunodd yn y dathliadau yn lleol!



# Grantiau

Eleni, mae Awyr Las wedi dosbarthu £1.7 miliwn o grantiau ar draws pedwar maes blaenoriaeth yr Elusen: Gofal Canser, y Blynyddoedd Cynnar, Iechyd Meddwl a Phobl Hŷn. Y maes a wariwyd arno fwyaf oedd Cyfleusterau a Lles Cleifion, yn cynrychioli dros hanner (55.16%) o



"Mae'r laser newydd wedi bod yn rhywbeth newydd sbon i'n gwasanaeth.

Mae'n ddarn o offer hanfodol ar gyfer darparu triniaethau diweddaraf a rhai sydd wedi'u profi'n glinigol ar gyfer bob claf pan maent yn cael diagnosis o ganser y pen a'r gwddf."

**YR ATHRO ARVIND ARYA  
MSC MD FRCS (ORL-HNS)**

**LLAWFEDDYG YMGYNGHOROL  
THYROID / PEN A'R GWDDF ENT**

Gwybodaeth allweddol

**PROSIECT**  
Laser CO2

**COST**  
£55,235

**THEMA**  
Gofal Canser

**SAFLE**  
Ysbyty Glan Clwyd



**Mae achosion o ganserau oroffaryngeol (OPC), yn bennaf o'r tonsil a'r tafod, yn cynyddu'n gyflym.**

Mae llawfeddygaeth laser wedi cael ei phrofi i fod yn driniaeth lwyddiannus ar gyfer OPC, ac mae'n dod yn fwy cyffredin yn ein harfer clinigol. Oherwydd cynnydd yn nifer yr achosion OPC a oedd yn cael diagnosis, nid oedd gan y tîm ENT yr offer theatr sydd eu hangen i gynnal

triniaeth laser sy'n achub bywydau i bob claf. Dim ond un laser oedd ar gael, gan alluogi'r tîm i gynnal un llawdriniaeth ar gyfer pob rhestr llawdriniaeth. Mae hyn weithiau yn arwain at oedi o ran llawfeddygaeth. Gydag arian gan Awyr Las, mae'r tîm ENT wedi prynu Laser CO2 newydd. Mae defnyddio'r offer newydd yn lleihau'r angen am gemotherapi, a radiotherapi.

Mae hwn yn ganlyniad gwell i gleifion, gan leihau cyfnod triniaeth sydd ei angen, a lleihau'r tebygrwydd o gymhlethdodau ar ôl triniaeth. Mae'r holl gleifion ar draws Gogledd Cymru yn elwa o'r offer laser, gan fod gwasanaethau canser y pen a'r gwddf wedi'u canoli yn Ysbyty Glan Clwyd.

## Mae'r Ganolfan Ymchwil Clinigol Gogledd Cymru, yn Wrecsam, yn darparu cyfleuster safon byd ar gyfer ymgymryd ag ymchwil clinigol, addysg a hyfforddiant, yn seiliedig ar gydsyniad arloesol ar gyfer cydweithio a chynyddu trosglwyddo

Mae'n cynnwys labordai ymchwil, ystafelloedd clinigol ar gyfer ymgymryd ag ymchwil nad yw'n cael ei gynnal mewn labordy, cyfleusterau desg boeth, swyddfeydd ac ystafelloedd seminar. Mae NWCRC yn darparu cyfleuster a gwasanaeth, gan ganiatáu staff BIPBC i ymgymryd ag ymchwiliadau ymchwil mewn labordy a rhai sydd ddim mewn labordy.

Amcan yr NWCRC yw hyrwyddo ymchwil clinigol yn BIPBC, ac i annog staff o fewn y bwrdd iechyd i ymgymryd â gweithgareddau ymchwil, ac i ddatblygu NWCRC fel canolfan rhagoriaeth ar gyfer ymchwil clinigol (yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol).

Rhoddodd Awyr Las £25,000 i brynu'r offer cychwynnol sydd ei angen i sefydlu'r ganolfan er

### GWYBODAETH ALLWEDDOL



#### PROSIECT

Offer cychwynnol ar gyfer NWCRC

#### COST

£25,000

#### THEMA

Ymchwil a Datblygiad

#### SAFLE

Canolfan Ymchwil Clinigol Gogledd Cymru

Meddai'r Athro Stephen Hughes, Cyfarwyddwr Academiaidd a Gwyddonol NWCRC: "Mae agor y ganolfan o'r diwedd yn wych o beth. Gyda'r cyfleuster hwn, mae gennym ganolfan ymchwil clinigol gyda chyfarpar gwych sy'n rhoi'r cyfle i'n staff allu ymgymryd ag ymchwil clinigol arloesol iawn.

"Bydd ymgymryd ag ymchwil clinigol o fudd i bobl Gogledd Cymru ar lefel genedlaethol a thu hwnt. Nod pennaf y ganolfan ymchwil yw darparu cyfleuster sydd ar flaen y gad i'n cleifion a'r cyhoedd, gan sicrhau bod gan Gogledd Cymru ran weithredol wrth ymgymryd ag ymchwil clinigol arloesol.

"Rydym wedi gweithio'n galed i agor y cyfleuster hwn, ac edrychwn ymlaen at groesawu'r cyhoedd i'r ganolfan i weld beth sy'n digwydd yma.

"Drwy gael Bwrdd Iechyd sy'n weithredol o ran ymchwil, yn ei dro, bydd yn denu'r clinigwyr, a gweithwyr proffesiynol perthynol ag iechyd gorau i'r ardal, gan obeithio bydd yn darparu cyfle i ehangu a chreu swyddi newydd."





## GWYBODAETH ALLWEDDOL

### PROSIECT

Therapiau Cyflenwol

### COST

£59,296

### THEMA

Gofal Cancer

### SAFLEOEDD

Ysbyty Glan Clwyd

Ysbyty Gwynedd

Ysbyty Maelor



DYWEDODD  
98%  
O GLEIFION  
EI FOD WEDI  
GWEITHIO'N  
DDA IDDYNT

**Mae sgil effeithiau cancer a'i driniaeth yn aml yn boenus ac yn eich llethu, ond drwy therapïau cyflenwol, gallwn gynnig seibiant, cysur a chefnogaeth emosiynol i gleifion pan fydd arnynt ei angen fwyaf.**

Mae therapïau cyflenwol yn gallu helpu i ail gynnau ysbryd cleifion sy'n byw â chanser, eu cefnogi i wneud newidiadau i'w ffordd o fyw, a'u hysgogi i symud ymlaen â'u bywydau.

Er bod y GIG yn darparu'r cyffuriau sy'n achub bywyd, a'i

ymestyn, staff rheng flaen a chyfleusterau sylfaenol, rydym yn dibynnu ar haelioni'r cyhoedd i sicrhau y gallwn barhau i ddarparu'r pethau ychwanegol gwerthfawr fel therapïau cyflenwol, sy'n gwneud gwir wahaniaeth i gleifion cancer lleol.

Mae darpariaeth gwasanaeth therapi cyflenwol ar y tri safle llym wedi bod yn bosibl oherwydd cefnogaeth hael cymunedau, cleifion a theuluoedd.

Ffordd o feddwl ysbrydoledig yn cynnig tylino'r corff i gleifion.

Ymlaciol iawn, ac yn cael gwared ar feddyliau a theimladau'r cemotherapi.

Hyfryd. Diolch.

**CLAF  
UNED SEREN WIB  
WRECSAM**



## Clefyd Cronig yr Arennau (CKD): Allwn ni dargedu iechyd gwythiennau er mwyn atal y clefyd rhag datblygu a gwella therapi arenol?

Mae CKD yn glefyd ble mae swyddogaeth yr arenau yn gwaethygu'n gynyddol, sy'n cynyddu'r risg o glefyd y galon, a marwolaeth, ac yn arwain at yr angen am ddialysis neu drawsblaniad aren (a elwir hefyd yn therapi arenol). Mae sawl achosion posibl ar gyfer CKD yn cynnwys cyflyrau cyffredin megis pwysedd gwaed uchel, diabetes, a gordewdra.

Mae ychydig o ymchwil blaenorol sy'n awgrymu y gallai ymarfer o bosibl oedi datblygiad clefyd yr arenau, ond mae'r canlyniadau wedi bod yn amhendiant, mae angen astudiaethau mwy. Rydym hefyd angen deall yn well y mecanwaith y gallai ymarfer fod yn fanteisiol; mae ymchwil blaenorol wedi dangos y gall ymarfer wella iechyd gwythiennau mewn cleifion sydd â chlefyd cronig yr arenau, ac efallai y gall hyn arwain at welliannau mewn swyddogaeth yr arenau.

Mae'r astudiaeth yn cael ei chynnal ar y cyd rhwng Prifysgol Bangor a King College, Llundain. Mae ymchwilwyr am weld a all rhaglen ymarfer strwythuredig am flwyddyn helpu i wella iechyd y gwythiennau a swyddogaeth yr arenau mewn cleifion sydd â chlefyd cronig yr arenau.

Gobeithir y bydd canlyniadau'r astudiaethau yn dangos bod mwy o weithgaredd corfforol yn helpu i arafu datblygiad clefyd yr arenau yn ein cleifion, ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau cleifion drwy oedi'r angen am therapi arenol. Yn y pendraw, gall hyn arwain at therapi ymarfer yn cael ei gynnig fel rhan o ofal arferol i bob claf sydd ag CKD.

### GWYBODAETH ALLWEDDOL



#### PROSIECT

Prosiect ymchwil clefyd cronig yr arenau

#### COST

£29,041

#### THEMA

Ymchwil a Datblygiad

#### SAFLE

Prifysgol Bangor

Anogir rhieni a gofalwyr i bob amser aros ar y ward pan fo'u plant yn cael eu derbyn i'r ysbyty. Mewn nifer o achosion, gall hyn olygu aros dros nos. Drwy ddefnyddio arian o gronfa Uned Plant Ysbyty Gwynedd, roeddem yn gallu prynu 6 gwely sy'n plygu sy'n gyfforddus, ac yn cydymffurfio â gofynion atal haint a chodi a chario. Mae'r gwelyau newydd yn cael eu defnyddio bob dydd ar y ward, gan sicrhau bod teuluoedd yn gallu aros gyda'i gilydd pan fo'u plentyn yn sâl.

### LIZ FLETCHER

CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL ARDAL (GORLLEWIN)  
GWASANAETHAU PLANT



### GWYBODAETH ALLWEDDOL



#### PROSIECT

Gwelyau i rieni a gofalwyr

#### COST

£5,129

#### THEMA

Y Blynnyddoedd Cynnar

#### SAFLE

Ysbyty Gwynedd





# Grantiau: Calonnau a Meddyliau

Yn 2018/19, cyflwynodd Awyr Las gynllun grantiau bach newydd: Calonnau a Meddyliau. Dyluniwyd y cynllun er mwyn bod yn hygyrch i'r holl staff, a byddai'n dyfarnu nifer fechan o gyllid i staff y rheng flaen sy'n dymuno peilota syniadau creadigol neu arloesol. Roedd y cynllun yn bosibl oherwydd sawl rhoddwr, gyda chyfran helaeth o'r cyllid yn cael ei ddarparu gan Grŵp Cynefin.

**Cyflwynwyd cyfanswm o 52 o geisiadau yn cynrychioli prosiectau ar draws Gogledd, mewn ysbytai llym a safleoedd cymuned.**

Gwahoddwyd unigolion i gyflwyno ceisiadau o hyd at £1,000 tuag at brosiect fyddai eu cleifion yn elwa ohono.

Roedd y meini prawf yn hyblyg, gyda'r unig amod fod cleifion yn elwa o'r prosiectau yn y meysydd gofal iechyd canlynol

- Iechyd meddwl
- Anableddau Dysgu
- Strôc
- Gofal Dementia

Roedd safon y ceisiadau yn uchel iawn.

Cafodd deuddeg cais eu hariannu drwy'r Gronfa Calonnau a Meddyliau, gyda £5000 ychwanegol o gronfeydd elusennol amhenodol yn cael ei ddarparu at y diben hwn.

Ariannwyd 4 cais pellach drwy fynd at Gynghorwyr Cronfeydd perthnasol, a gofyn am gefnogaeth gan gronfeydd y maent yn eu goruchwylio.

Rhodddwyd cyfanswm o £12,530 i 16 allan o'r 52 o geisiadau.



## Aromatherapi ar yr Uned Feddygol Lem

**Roedd gan Louise Lewis, Gweithiwr Cefnogi Dementia yn Uned Feddygol Lem Ysbyty Glan Clwyd, syniad i ddefnyddio aromatherapi i helpu cleifion sy'n cyrraedd ar y ward i ymlacio.**

Eglurodd Louise:

"Mae'r AMU yn uned brysur iawn. Rydym yn derbyn cleifion o'r Adran Achosion Brys sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty. Gall cleifion gael eu trosglwyddo i'r AMU ac oddi yno, ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos. Pan maent yn cyrraedd gyda ni, gall cleifion fod yn flinedig iawn, yn aflonydd, yn ddryslyd ac yn ofidus.

"Syniad Calonnau a Meddyliau oedd gwneud AMU yn amgylchedd mwy ymlaciol a chyfforddus i gleifion drwy roi pecyn aromatherapi ym mhob ystafell. Rwy'n tyllino dwylo a thraed cleifion, ac yn chwarae cerddoriaeth ymlaciol. Mae'r aromatherapi yn ategu hyn, ac yn helpu i gleifion ymlacio a chael seibiant.

### GWYBODAETH ALLWEDDOL

#### PROSIECT

Aromatherapi ar AMU

#### COST

£1,000

#### THEMA

Iechyd Meddwl


#### SAFLE

Ysbyty Glan Clwyd



### ADBORTH CLEIFION

"Roedd yn hyfryd dod o'r Adran Achosion Brys i ystafell ymlaciol hyfryd. Mae fy ngŵr yn llawer mwy cyfforddus nag yr oedd."



**Yn Uned Strôc Ysbyty Glan Clwyd, bu i'r tîm archwilio'r manteision therapiwteg o ddrymio er mwyn darparu adborth synhwyrdd i goesau a breichiau a effeithwyd yn dilyn strôc.**

Darparwyd sesiynau drymio strwythuredig i gleifion yn yr uned. Yn dilyn bob sesiwn, cynhaliodd staff gyfweiliad byr gyda phob claf, ac archwilio'r agweddau positif o ymgysylltu yn y grŵp, ac i drafod sut y gellir gwella.

Roedd yr adborth gan gleifion yn bositif iawn, a dangosodd fod ymgysylltu ag ymyriad cerddoriaeth bywiog a symbylol yn gwella eu teimlad cyffredinol o les.

Dywedodd Kirsty Edwards, Therapydd Galwedigaethol:

"Fel tîm, rydym mor ddiolchgar o gael y grant Calonnau a Meddyliau i beilota effaith ymyriad cerddoriaeth actif ar adsefydlu yn dilyn strôc.

"Rydym yn gobeithio y bydd cleifion strôc mewn amgylchedd ward yn elwa yn gorfforol ac yn seicolegol drwy ymgysylltu ag ymyriad cerddoriaeth bywiog, symbylol a rhyngweithiol.

"Cafodd Beth, ein Therapydd Galwedigaethol mewn Strôc yn Ysbyty Glan Clwyd y wobwr cymrodoriaeth cyntaf Cochrane Ymchwilwyr Strôc Cymru.

"Mae'r wobwr wedi'i galluogi i weithio ar adolygiad systematig gyda Grwpiau Dementia a Strôc Cochrane. Prif fwriad y prosiect yw cefnogi'r cymrodorion i gwblhau adolygiad Cochrane, ond amcanion pwysig eraill yw mabwysiadu cydweithio amlddisgyblaethol a thrawsffiniol.

"Mae Beth yn adolygu effeithiolrwydd ymyriadau sy'n seiliedig ar aromatherapi, ac mae'r adolygiad yn awr yn y camau olaf cyn ei gyhoeddi."

## **GWYBODAETH ALLWEDDOL**



### **PROSIECT**

Therapi cerdd i gynorthwyo adferiad strôc

### **COST**

£1,000

### **THEMA**

Gofal Strôc

### **SAFLE**

Ysbyty Glan Clwyd



## **ADBORTH CLEIFION**

- "Roedd y dirgryniad yn fy mraich a effeithiwyd yn deimlad da"
- "Cododd ysbryd y ward"
- "Mae cerddoriaeth yn therapi gwyach"
- "Fe helpodd i mi ymlacio- i ganolbwyntio ar wneud pethau i fi fy hun"
- "Anogodd sŵn y drwm i mi gymryd rhan"





# #Tîmlrfon



## Sefydlwyd ymgyrch #Tîmlrfon yn 2014 ar ôl i Irfon Williams, Rheolwr Nyrsio lleol, gael diagnosis o ganser datblygedig y coluddyn yn 43 oed.

I ddechrau, roedd Irfon eisiau codi £5,000 gan ei fod ef a Becky, ei wraig wedi sylweddoli fod cael diagnosis o ganser a mynd drwy driniaeth yn cael effaith fawr ar iechyd meddwl cleifion a'u teuluoedd.

Roedd Irfon a Becky yn teimlo fod agwedd iechyd meddwl o ofal canser angen mwy o sylw, felly fe ffurfiwyd #Tîmlrfon i godi arian i ariannu prosiectau a chyfleusterau sy'n cefnogi iechyd meddwl cleifion canser lleol a'u teuluoedd yn benodol.

Yn anffodus, bu Irfon farw ym mis Mai 2017; ond bydd atgofion ohono a #Tîmlrfon yn byw am byth.

Hyd yn hyn, mae dros £180,000 wedi cael ei godi ac wedi mynd yn uniongyrchol at wasanaethau lleol. Mae Becky yn awr yn goruchwyllo #Tîmlrfon, yn ogystal â Metron Manon Williams. Mae'r ddwy ddynamig, sydd wedi cael cymaint o gefnogaeth gan eu cymuned leol a busnesau hael (yn cynnwys Watkin Jones a Dafydd Hardy), yn ymroddgar i gynyddu cefnogaeth ar gyfer teuluoedd mewn galar, ac yn parhau i ariannu sesiynau ymwybyddiaeth ofalgar, therapïau cyflenwol, a gwell wigiau ar gyfer yr unigolion hynny sy'n colli eu gwalltiau.

Gyda'i gilydd, mae cefnogwyr #Tîmlrfon yn parhau i wneud gweledigaeth Irfon ar gyfer gwell cefnogaeth iechyd meddwl i unigolion sydd â chanser yn realiti.

Mae Sybil Jones yn mynychu Uned Dydd Gofal Canser Alaw bob dydd Gwener ar gyfer pigiadau cemo a chryfhawyr esgyrn, ac yn cael adweitheg, sy'n cael ei ariannu drwy roddion a roddir drwy #Tîmlrfon.

Dywedodd Sybil:

"Mae Sam yn darparu adweitheg i gleifion fel fi. Mae bob amser yn llwyddo i wneud amser i mi, er bod galw am ei hadweitheg traed tyner hyfryd gennym ni gyd yn yr Uned.

"Nid wyf wir yn meddwl bod gwell lladdwr poen, ac o'i herwydd hi rwyf yn edrych ymlaen at ymweld â'r ysbyty bob wythnos. Mae'n wasanaeth gwych y mae'n ei ddarparu yn Uned Alaw."

*Rhys Meirion a Chôr Glanaethwy yn perfformio yng Nghyngerdd Nadolig cyntaf #Tîmlrfon*





Rwy'n gwybod y byddai fy ewythr a'm modryb, Bob a Flora Livsey, wrth eu boddau bod eu cymynrodd yn cael cymaint o effaith ar unigolion o'u cymuned yma yng Ngogledd Cymru. Diolch iddynt, mae cymaint o unigolion yn gallu cael gwell gofal a thriniaeth yma yn Ysbyty Glan Clwyd.

Dewisodd Bob a Flora i gofio'r ysbyty yn eu hewyllys gan eu bod wedi cael gofal gwyb eu hunain. Fel Ymddiriedolwr y Gronfa a wnaethant ei sefydlu, rwyf wrth fy modd gwybod fod eu rhodd wedi gwneud cymaint o wahaniaeth, a bydd yn parhau i helpu teuluoedd lleol am nifer o flynyddoedd i ddod.

**JOHN GRIFFITHS  
NAI BOB A FLORA,  
AC YMDDIRIEDOLWR  
Y GRONFA LIVSEY**



**Penderfynodd y diweddar Bob a Flora Livsey i sefydlu Cronfa Elusennol yn eu Hewyllys, gyda'r bwriad o helpu cleifion eraill sy'n cael eu trin yn Ysbyty Glan Clwyd, i ddangos gwerthfawrogiad am y gofal meddygol arbennig y cafodd y ddau ohonynt yn ystod blynyddoedd diwethaf eu bywydau.**

Mae'r Ymddiriedolaeth Livsey yn awr wedi rhoi £1,106,880 i gefnogi offer newydd a gwell. Mae effaith cymynrodd y cwpl yn anferthol.

Mae rhodd fwyaf diweddar yr Ymddiriedolaeth o £550,000 wedi helpu i wella triniaeth gardiaidd yn sylweddol yn yr ysbyty.

Roedd yr Ymddiriedolaeth Livsey yn brif sbardun wrth ddatblygu Theatr Hybrid newydd, o'r radd flaenaf ar gyfer yr ysbyty. Mae'r theatr newydd yn rhan o nifer o newidiadau sy'n cael eu gwneud

i wasanaeth fasgwlaidd yng Ngogledd Cymru. Mae'r ganolfan newydd yn Ysbyty Glan Clwyd yn awr yn un o'r rhai sydd â'r offer gorau yn y Deyrnas Unedig, gydag arbenigedd a chyfleusterau ar gael ddydd a nos i drin achosion prif wythiennol cymhleth.

Bydd y theatr newydd yn rhoi'r gallu i Radiolegwyr Ymyriadol a Llawfeddygon Fasgwlaidd i gynnal llawfeddygaeth agored, draddodiadol, a thriniaethau endofasgwlaidd sy'n llai ymwithiol i'r un cleifion, ar yr un pryd, yn yr un lle.

Mae'r rota meddyg ymgynghorol brys fasgwlaidd yn rhedeg o Ysbyty Glan Clwyd 24 awr y dydd, 7 niwrnod yr wythnos, gyda'r theatr hybrid yn darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i ddarparu gofal fasgwlaidd brys.



# Cynllun gwirfoddoli'r Robiniaid

## Mae'r Robiniaid yn adnabyddus am eu natur gyfeillgar

Mae cynllun gwirfoddoli'r Robiniaid yn cael ei ariannu'n rhannol gan roddion i Awyr Las, ac mae'r cymorth y mae'r gwirfoddolwyr yn ei roi yn yr ysbytai yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan bawb.



**Pwrpas y cynllun Robiniaid yw gwella profiad cleifion allanol drwy gyflwyno rôl cyfaill gwirfoddol ar y wardiau.**

Mae Robiniaid yn ffrindiau ac yn rhoi cefnogaeth ymarferol i gleifion.

Mae hyn yn cynnwys gwneud diodydd poeth ac oer, gwirio jygiau dŵr a'u hail-lenwi, treulio amser yn cael sgwrs gyffredinol, a darparu gwasanaeth darllen ac ysgrifennu ble bo'n briodol.

Mae robiniaid weithiau yn mynd i siop yr ysbyty i gleifion hefyd.



Gallent gynorthwyo staff nyrsio i wneud y gwelyau, helpu gyda storio cyflenwadau, a thacluso loceri cleifion.

Gall rhai robiniaid gynnig gwasanaeth cyfeirio hefyd, gan helpu cleifion i ddeall y gefnogaeth ychwanegol sydd ar gael iddynt yn y gymuned.

Yn 2018/19, rhoddwyd bron i £27,000 i gefnogi datblygiad y Robiniaid, rhaglen gwirfoddolwyr



## STORI ROGER

Mae gwirfoddolwr Robiniaid sy'n sicrhau bod cleifion yn Ysbyty Abergele yn cael eu papurau newydd yn y bore wedi cael ei enwi yn "Seren Betsi". Mae gwobr Seren Betsi BIPBC yn cael ei roi i staff a gwirfoddolwyr sydd wedi rhagori.

Mae Roger Harvey yn mynd allan ym mhob tywydd i ddsbarthu papurau newydd i gleifion mewn dau ysbyty, ac hyd yn oed wedi helpu staff i gyrraedd eu gwaith yn ystod yr eira trwm y Gaeaf diwethaf.

Cafodd Roger, sydd wedi bod yn gwirfoddoli yn yr ysbyty am dros 10 mlynedd, ei ysbrydoli i helpu eraill ar ôl derbyn gofal yn Ysbyty Glan Clwyd wedi iddo gael strôc yn 2005.

Cafodd Roger ei enwebu am y wobwr gan Angela Fortune, Cynorthwydd Domestig, y mae'n ei gweld ar ei ymweliad ag Ysbyty Abergele.

Dywedodd Angela: "Enwebais Roger gan ei fod yn wirfoddolwr, yn defnyddio ei gar, ei amser a'i arian ei hun i helpu eraill, ac yn rhoi gwên ar wynebau cleifion wrth iddo gyrraedd yn y bore.

"Heb Roger ni fyddai gan rhai unigolion sy'n mwynhau darllen y papurau hyn i edrych ymlaen ato. Rydym eisiau dweud diolch iddo am bopeth y mae'n ei wneud."

MAE RHODDION I'R GRONFA  
**ROBINIAID**  
 YN ARIANNU TREULIAU GWIRFODDOLWYR  
 YN CYNWYS COSTAU TEITHIO, LLE BO'N BRIODOL,  
 A'R CRYSAU-T COCH NODEDIG  
 SY'N CAEL EU GWISGO Â BALCHDER  
 GAN DROS 200 O UNIGOLION  
 AR DRAWS GOGLEDD CYMRU



## STORI LAURA

Bu i Laura McManus, o Dalybont, ger Abermaw, dderbyn Gwobr Seren Betsi eleni hefyd.

Dywedodd Sally Adams, Metron Ysbyty Dolgellau: "Ers i Laura ddod yn Robin yma yn Ysbyty Dolgellau, rwyf wedi sylwi ar ei dull hynod o gyfeillgar gyda'n cleifion."

"Mae ganddi berthynas wych gyda fy staff ar y ward, ac mae ganddi ddylanwad tawel hyfryd ar bawb sydd o'i chwmpas."

Dywedodd Laura: "Rwyf wrth fy modd yn derbyn y Wobr Seren Betsi, gan fy mod yn hapus iawn bod yn Robin yn Ysbyty Dolgellau, ac mae'n anrhydedd i mi."



CYFLAWNIADAU  
**2018/19**



Bu i 202 o Robiniaid ddarparu cefnogaeth ar draws Gogledd Cymru



Bu i Robiniaid helpu ar 3 safle llym, a 13 safle cymuned



Rhoddwyd 19,968 awr o amser i'r cynllun Robiniaid



Cafodd 2 wirfoddolwr Gwobr "Seren Betsi"



**Enillwyr Gwobr Cyrhaeddiad BIPBC  
 am Gyfraniad Gwirfoddol Nodedig**

**EDWARD**

*Mae'n rôl wobrwyl iawn.  
 Mae'n braf gallu helpu pobl.*

**FAZAL**

*Rwyf wedi dysgu sgiliau bywyd gwerthfawr iawn gan gleifion a gan fy nghydweithwyr, sy'n ysbrydoledig dros ben.*

**CYNTHIA**

*Pan rwyf yn mynd adref ar ddiwedd y dydd, rwy'n teimlo fy mod wedi gwneud rhywbeth gwerth chweil.*



# Cefnogwyr

Bob blwyddyn, mae'r Tîm Cefnogi Elusen wrth eu bodd gydag ymdrechion a chyflawniadau cefnogwyr gwych Awyr Las. Nid yw eleni yn eithriad. Amrywiodd cefnogaeth yn 2018/19 o 85 ward ac adran yn cynnal Partiön 'Te70' i ddathlu Pen-blwydd y GIG yn 70, i Uned Plant Ysbyty Maelor Wrecsam yn datblygu eu Partneriaeth Gorfforaethol â Rhwydweithiau SP Energy,

a oedd yn allweddol i'w helpu i godi dros £25,000 drwy eu dawnns elusennol cyntaf. Mae'r Tîm Cefnogi Elusen yn ddiolchgar iawn am haelioni'r nifer o unigolion, busnesau lleol, a sefydliadau cymuned sy'n cyfrannu at Awyr Las. Mae eu cefnogaeth yn helpu'r elusen i sicrhau bod staff y GIG ar draws Gogledd Cymru yn gallu mynd y tu hwnt ar gyfer eu cleifion.



## MAE GWERTH Y BARTNERIAETH ODDEUTU



1:5  
O ADENILLION AR FUDDSODDIAD

"Heb gefnogaeth allweddol gan gwmnïau lleol megis SP Energy Networks, ni fyddem yn gwneud cymaint o arian er budd uniongyrchol ein cleifion. Mae cael noddwyr ar gyfer ein dawnns elusennol yn caniatáu i ni adennill y costau'n llawn ar gyfer y digwyddiad, sy'n golygu y bydd Uned Plant Ysbyty Maelor Wrecsam yn elwa'n uniongyrchol o'r holl arian a godir.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae wedi bod yn fraint bod yn brif noddwr i achos mor deilwng ar gyfer dawnns elusennol Ward Plant Ysbyty Maelor Wrecsam. Mae SP Energy Networks yn ymrwymedig i gefnogi cymunedau yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru, a Chaer, Glannau Merswy a Gogledd Sir Amwythig, drwy raglen estynedig

o raglenni ymgysylltu cymuned a noddwyr lleol. Rydym yn llongyfarch tîm elusennol Ward Plant Ysbyty Maelor Wrecsam am drefnu digwyddiadau mor wych i helpu i godi swm anhygoel o arian i blant a'u teuluoedd sy'n cael eu trin ar y ward.

**PHIL JONES**  
**PENNAETH DARPARU**  
**SP ENERGY NETWORKS**

Y llynedd, oherwydd nawdd a chefnogaeth hael, fe wnaethom wneud elw anhygoel o £25,500, gan helpu i gefnogi cleifion a theuluoedd rydym yn gofalu amdanynt drwy offer newydd a gwell cyfleusterau i lonni diwrnodau cleifion."

### LESLEY JONES

**NYRS STAFF WARD Y PLANT**  
**AELOD O BWYLLGOR Y DDAWNS ELUSENNOL**



Mae "Cerdded ar gyfer Dementia" yn daith gerdded pellter hir, dros sawl diwrnod, y mae grŵp bach o wirfoddolwyr yn ymgymryd â hi bob blwyddyn. Ar ddiwrnod olaf yr her, gwahoddir staff y GIG ac aelodau o'r cyhoedd i gymryd rhan yn adran olaf y daith gerdded, i godi arian ar gyfer prosiectau arbennig Gofal Dementia mewn ysbytai.



**CYFANSWM  
WEDI EI  
GODI HYD  
YN HYN GAN  
CERDDED  
AR GYFER  
DEMENTIA**

**"Pan eisteddais gyda fy mam yn yr ysbyty, a chael gwybod bod ganddi ddementia, ychydig iawn a wyddwn am faint mae'n effeithio ar gymaint o unigolion, a bod llawer i'w ddeall am y clefyd.**

Pan fu farw fy mam, gallaf wir ddweud fod y gofal a'r urddas a ddangosodd y nyrsys tuag at fy mam yn eithriadol, ac ni allaf eu canmol digon. Roeddwn i'n teimlo fy mod angen rhoi rhywbeth yn ôl, a dyna sut dechreuodd 'Cerdded ar gyfer Dementia' i'n herio ni gyd i godi arian ar gyfer yr achos. Dyma ein trydedd flwyddyn, ac rydym yn teimlo fel grŵp ein bod eisiau parhau i wneud hyn am gyn hired ag y gall ein coesau ymdopi ag o, ac i wneud gwahaniaeth i fywydau unigolion.



Fel Cynghorydd Cronfa ar fy nghronfa fy hun, rydw i'n cwrdd â staff o bryd i'w gilydd, fel Matron a'r Gweithwyr Cymorth Dementia, ac yn trafod y ffordd orau i gefnogi cleifion a theluoedd sy'n cael eu heffeithio gan ddementia. Bydd metron bob amser yn cysylltu â mi cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud ynghylch cyllid, ac rydym yn sicrhau ein bod i gyd yn cytuno ynghylch yr hyn a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar gleifion.

Ni allai dim o hyn ddigwydd heb y Tîm Cefnogi Awyr Las. Mae'r gefnogaeth a gawsom ar gyfer y teithiau cerdded wedi bod yn aruthrol; o hyrwyddo'r daith gerdded, sylw yn y cyfryngau cymdeithasol, helpu i ennill nawdd, a mwy. Rwy'n gwybod y bydd yr un gefnogaeth yn cael ei rhoi inni gyda digwyddiadau yn y dyfodol."

**RONNIE BRIGHT  
RHEOLWR SWYDDFA GYFFREDINOL  
CYNGHORYDD CRONFA AWYR LAS**

[awyrilas.org.uk](http://awyrilas.org.uk)



Mae'r digwyddiadau Cerdded ar gyfer Dementia yn wych i'r staff yn Ysbyty Llandudno; mae'n wych i'r tîm weld y cerddwyr yn cyrraedd ar y safle ar ôl eu taith gerdded hir. Mae'n atgoffa staff fod y cyhoedd, a'u cydweithwyr yn y GIG ehangach, yn gwerthfawrogi eu gwaith o ofalu am gleifion sy'n byw â dementia.

Mae'r arian mae'r cerddwyr yn ei godi wir yn gwella profiadau cleifion yn Ysbyty Llandudno. Un o'r pethau mwyaf arwyddocaol rydym yn gallu ei wneud gydag arian gan Awyr Las yw gwella'r amgylchedd i gleifion. Eleni, roeddem yn gallu gosod nenfwd LED ar Ward Aberconwy, sy'n gwneud profiad o fod ar y ward yn fwy ymlaciol i gleifion.

**PHILLIP RATHBONE  
METRON  
LLANDUDNO HOSPITAL**





**Bu i Tesla Owners UK roi RadioFlyer Mini Tesla bob un i'r unedau plant yn Ysbyty Maelor Wrecsam ac Ysbyty Glan Clwyd, i wella'r profiad o fod yn yr ysbyty i blant.**

Tesla Owners UK yw Grŵp Perchnogion Teslaswyddogol y Deyrnas Unedig fel y cadarnhawyd gan Tesla. Mae'r cynllun RadioFlyer Mini Tesla yn cael ei gefnogi gan Elon Musk, sy'n rhoi arian cyfatebol ar gyfer bob car. Hyd yn hyn, mae'r grŵp wedi rhoi dros 160 o geir ar draws y Deyrnas Unedig.

Dyweddodd Tom Last, aelod o Tesla Owners UK:

"Gan fy mod yn lleol i Ogledd Cymru, roedden eisiau sicrhau bod unedau plant yn yr ardal yn gallu elwa o'r fenter hon. Mae'r byd hwn yn lle creulon weithiau, ac os allwn ni roi gwên ar wyneb rhywun, fe wnawn ein gorau."



**Mae fîm Uned Canser Dydd Alaw yn gwneud gwaith gwych, ac mae'n ffrind i mi geisio codi arian ar gyfer yr achosion hanfodol hyn.**

Fy mlaenoriaeth ers colli fy ngwraig i ganser y fron 13 mlynedd yn ôl, yw Uned Canser Dydd Alaw, a helpodd Yvonne geisio goresgyn y clefyd erchyll hwn.

Mae llawer o fy ffrindiau wedi marw o ganser hefyd, felly i mi mae'n hanfodol fy mod yn gwneud beth allu i i godi arian bob blwyddyn ar gyfer yr achos gwych hwn. Mae ein dyled ni gyd i nyrsys a staff Ysbyty Gwynedd.

**MALCOLM PITTS**  
**UNIGOLYN SYDD WEDI BOD YN**  
**CODI ARIAN YN Y TYMOR HIR**



**Roedd Karen Jutson yn rhan o drïo a wnaeth seiclo 300 milltir o Lundain i Baris eleni.**

Dewisodd Karen i gefnogi Uned Gofal Arbennig i Fabanod yn Ysbyty Glan Clwyd.

Dywedodd Karen, a oedd yn gweithio yn y SCBU yn flaenorol: "Roedd y pleser y cefais wrth helpu babanod, a chwrdd â'u teuluoedd yn werth chweil.

"Gyda'r SuRNICC newydd (canolfan isranbarthol gofal dwys i'r newydd-anedig) yn Ysbyty Glan Clwyd, yn ogystal â datblygiadau gwyddonol sy'n esblygu, mae'r dyfodol ar gyfer ein maes yn edrych yn llewyrchus iawn.

"Roeddwn eisiau cyfrannu at y ganolfan drwy godi arian drwy'r her hon, fel y gall y ganolfan barhau i ddarparu'r gofal gorau posibl."

**£7,393**

**WEDI'I GODI**



**300  
MILLTIR**



**LUNDAIN  
I BARIS**



**Cafodd frawd Leah Malbon, sy'n awr yn 34, ddiagnosis gyda diabetes math un yn dair oed.**

Dywedodd Leah: "Roedd fy ysbrydoliaeth ar gyfer taith feics Llundain i Baris yn seiliedig ar addewid.

"Ar achlysur diweddar, pan oedd iechyd Stephen yn wael iawn, dywedais y buaswn yn gwneud yr her nesaf iddo ef.

Dewisodd Leah i godi arian ar gyfer Ffrindiau Gofal Arennol, a Ward 12 (Arennol a Diabetes), yn Ysbyty Glan Clwyd, lle mae Stephen yn glaf rheolaidd.



**Bu i wirfoddolwyr o Byd Gardd Gogledd Cymru drawsnewid Gardd Radiotherapi Canolfan Trin Canser Gogledd Cymru.**

Bu i'r tîm dacluso, chwynnu, a phlannu, a rhoddwyd planhigion a dodrefn hyfryd. Mae eu gwaith caled a'u haelioni wedi gwneud gwahaniaeth mawr i'r ardal, ac mae'r staff a'r cleifion yn ddiolchgar iawn am garedigrwydd y tîm.

North Wales  
**Garden World**





## £12,503,000

Incwm yr elusen o roddion, cymynroddion a digwyddiadau codi arian\*


\*ac eithrio buddsoddiadau



**GYMYN  
RODDION**



**RODDION  
A GWEITH  
GAREDDAU  
CODI  
ARIAN**



**GAEL EU GWNEUD  
AR-LEIN**



## TUEDDIADAU RHOI


2014 - 2019

## £1,975,372

Cyfanswm a roddwyd i'r elusen er cof am ffrindiau ac anwyliaid



**GRONFEYDD  
PENODOL**



**ER COF  
AM RYWUN**



**GWERTH Y  
RHODD  
CYFARTALOG**



**O RODDION  
WEDI'U RHOI**





## Buddsodiadau'r Elusen

Ni ellir gwario nifer o roddion a chymynroddion y mae'r elusen yn eu derbyn yn syth, gan eu bod angen cael eu cronni i allu ariannu'r nwyddau mwyaf priodol sy'n gwella gofal cleifion.

Felly, mae Awyr Las yn buddsoddi'r rhoddion hyn er mwyn cynhyrchu incwm, ac amddiffyn eu gwerthoedd mewn termau real. Rheolwyr Buddsoddi'r Elusen ar hyn o bryd yw Rothschild Wealth Management Limited.

Mae'r Ymddiriedolwr wedi mabwysiadu fframwaith moesegol, gydag egwyddorion sylfaenol yn cefnogi elfen foesegol o'r strategaeth buddsoddi cyffredinol.

Mae hyn wedi rhoi cyfeiriad i'r Rheolwyr Buddsoddi i ddatblygu strategaeth buddsoddi sy'n gyson â'r egwyddorion moesegol hyn, wrth roi digon o hyblygrwydd i ddarparu'r cydbwysedd gorau o risg a gwobrwyo ar gyfer yr Elusen.

Mae'r portffolio hwn yn cael ei reoli yn unol â'r strategaeth gytunedig hon, sydd fel a ganlyn:

**"Argymhellir bod eithriad negyddol o fuddsoddiad mewn cwmnïau sy'n cynhyrchu a dosbarthu:**

- cynnyrch alcoholig;
- cynnyrch tybaco; ac
- unrhyw gynnyrch a ellir ystyried eu bod yn gwrthdaro â gweithgareddau'r Bwrdd Iechyd.

**Na ddylid ei ganiatáu buddsoddiad mewn cwmnïau:**

- sydd â chofnod gwael o ran hawliau dynol a chamfanteisio ar blant; a/neu
- y mae eu helw yn deillio o wledydd sydd â chofnod o hawliau dynol gwael

**Yn ogystal â hyn, dylid buddsoddi mewn cwmnïau sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio ag egwyddorion Deddf Cydraddoldeb 2010."**

Mae perfformiad buddsoddi yn cael ei fonitro gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yn ei gyfarfodydd chwarterol.

Mae'r Pwyllgor yn derbyn adroddiadau gan y rheolwyr buddsoddi yn egluro perfformiad y portffolio, y lefel o risg a welir a'r disgwyliadau ar gyfer y dyfodol.



## Trefn materion ariannol yr Elusen

Mae gan Elusen Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Elusennau cysylltiedig eraill (enw swyddogol yr Elusen, Awyr Las) rhif elusen gofrestredig 1138976, cyfansoddiad dan ddogfen ymddiriedolaeth dyddiedig 23 Medi 2010.

Mae wedi ei gofrestru â'r Comisiwn Elusennol fel yr "Elusen Ymbarel, ac Elusennau Cysylltiedig", gyda'r gwrthrychau y mae'r cronfeydd yn cael eu defnyddio 'ar gyfer unrhyw ddiben elusennol neu ddibenion sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol'.

Mae'r trefniant cofrestru hwn, sy'n symleiddio'r gofynion adrodd statudol, yn cael ei gydnabod yn ffurfiol gan Ddatganiad Ymddiriedolaeth a ddelir gan y Comisiynwyr Elusennau.

O fewn trefniant cofrestru grŵp hwn mae dwy elusen:

- Elusen Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Apêl Canser Gogledd Cymru (Apêl Ron a Margaret Smith yn flaenorol)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw Ymddiriedolwr Corfforaethol cyfreithiol yr Elusen, sy'n golygu er bod yr aelodau bwrdd yn gyfrifol am weinyddu'r cronfeydd, nid ydynt yn ymddiriedolwyr unigol yr Elusen.

## Recriwtio, Penodi a Chynefino Ymddiriedolwyr

Aelodau Bwrdd y Bwrdd Iechyd yw'r ymddiriedolwyr corfforaethol. Mae'r Cadeirydd ac Aelodau Annibynnol y Bwrdd Iechyd yn cael eu penodi gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, gyda'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cael eu penodi yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd.

Mae aelodau newydd o'r Bwrdd yn cael hyfforddiant a sesiwn gynefino briodol ar ran y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, ac Adroddiadau Blynyddol a Datganiadau Ariannol y blynyddoedd blaenorol, copïau o Ddogfennau Llywodraethu'r Elusen, a chyhoeddiadau Comisiwn Elusennol perthnasol.

## Staff yr Elusen

Nid yw'r Elusen yn cyflogi unrhyw staff yn uniongyrchol. Mae rheolaeth yr elusen o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid.

Mae aelodau o Dîm Cefnogi Awyr Las yn cael eu cyflogi gan y Bwrdd Iechyd, ac yna yn cael eu hailgodi ar yr elusen yn unol â'r gyfran o'u hamser a dreulir ar waith elusennol.

Uwch Reolwr y Bwrdd Iechyd sy'n gyfrifol am weinyddu'r elusen yw Sue Hill, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid. Cyfrifydd yr Elusen yw Rebecca Hughes, a Kirsty Thomson, Pennaeth Codi Arian.

## Tâl Personél Rheoli Allweddol

Mae'r ymddiriedolwyr wedi dod i'r casgliad bod yr Ymddiriedolwyr Corfforaethol drwy'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol yn cynnwys personél rheoli allweddol yr Elusen, gan eu bod mewn rheolaeth o gyfeiriad yr Elusen.

Nid yw'r Elusen yn gwneud unrhyw daliadau am dâl, nac i ad-dalu treuliau ymddiriedolwyr yr Elusen am eu gwaith fel ymddiriedolwr. Mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr ddatgelu holl ddiddordebau perthnasol, eu cofrestru â'r Bwrdd Iechyd, a thynnu'n ôl o benderfyniadau ble gall gwrthdaro buddiannau godi. Mae holl drafodion parti cysylltiedig yn cael eu datgelu yn nodyn 2 o'r cyfrifon.

## Cynghorwyr yr Elusen

### Bancwyr

Banc NatWest, 5 Stryd y Frenhines, y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 1RS

### Cynghorwyr buddsoddi

Rothschild Wealth Management, New Court, St Swithin's Lane, Llundain, EC4N 8AL

### Archwilwyr cofrestredig

Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Ffordd y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ





# Aelodau'r Bwrdd



**Mr G Doherty**  
Prif Weithredwr  
01/04/18  
|  
31/03/19

**Dr E Moore**  
Cyfarwyddwr Meddygol  
Gweithredol a Dirprwy Brif  
Weithredwr  
01/04/18  
|  
31/03/19

**Mrs G Harris**  
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso  
a Bydwreigiaeth  
01/04/18  
|  
31/03/19

**Ms D Carter**  
Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrso  
a Bydwreigiaeth Dros Dro  
18/03/18  
|  
31/03/19

**Mr A Thomas**  
Cyfarwyddwr Gweithredol  
Therapiau a Gwyddorau Iechyd  
01/04/18  
|  
31/03/19

**Mr A Roach**  
Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac  
Anabledau Dysgu  
01/04/18  
|  
31/03/19

**Mr G M Lang**  
Cyfarwyddwr Gweithredol y  
Strategaeth  
01/04/18  
|  
13/05/18

**Ms S Baxter**  
Cyfarwyddwr Gweithredol  
Strategaeth Dros Dro  
14/05/18  
|  
18/11/18

**Mr M Wilkinson**  
19/11/18 Cyfarwyddwr Gweithredol  
|  
31/03/19 Cynllunio a Pherfformiad

**Ms S Green**  
01/04/18 Cyfarwyddwr Gweithredol y  
|  
31/03/19 Gweithlu a Datblygu Sefydliadol

**Ms T Owen**  
01/04/18 Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd  
|  
31/03/19 y Cyhoedd

**Mr R Favager**  
01/04/18 Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol  
|  
31/03/19

**Mrs M Olsen**  
01/04/18 Prif Swyddog Gweithredu  
|  
30/06/19

**Mrs G Lewis-Parry**  
01/04/18 Ysgrifennydd y Bwrdd  
|  
31/03/19

**Dr J C Stockport**  
01/10/18 Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal  
|  
31/03/18 Sylfaenol a Gwasanaethau

**Dr P Higson OBE**  
01/04/18 Cadeirydd  
|  
31/08/18

**Mr M Polin OBE QPM**  
01/09/18 Chair  
|  
31/03/19

**Mrs M Hanson**  
01/04/18 Is-gadeirydd  
|  
31/05/18

**Mrs M W Jones**  
01/06/18 Is-gadeirydd  
|  
31/03/19 [Aelod Annibynnol 01/04/18 i  
31/05/18]

**Yr Athro J Rycroft-Malone**  
01/04/18 Aelod Annibynnol a  
|  
31/03/19 Chynrychiolydd y Brifysgol

**Mr C Stradling**  
01/04/18 Aelod Annibynnol  
|  
31/08/18

**Mrs L Meadows**  
01/04/18 Aelod Annibynnol  
|  
31/03/19



# Aelodau'r Bwrdd



**Mrs B Russell Williams**

**01/04/18** Aelod Annibynnol  
|  
**05/03/19**

**Mr J Cunliffe**

**01/04/18** Aelod Annibynnol  
|  
**31/03/19**

**Cyng C Carlisle**

**01/04/18** Aelod Annibynnol  
|  
**31/03/19**

**Cyng R M Hughes**

**18/03/18** Aelod Annibynnol  
|  
**31/03/19**

**Ms J Hughes**

**01/06/18** Aelod Annibynnol a  
Chynrychiolydd Undebau Llafur  
|  
**31/03/19**

**Ms H Wilkinson**

**01/09/18** Aelod Annibynnol  
|  
**31/03/19**

**Ms L Reid**

**01/09/18** Aelod Annibynnol  
|  
**31/03/19**

**Mr Ff Williams**

**01/04/18** Aelod Cysylltiol o'r Bwrdd a  
Chadeirydd (Grŵp Cyfeirio  
Rhanddeiliaid)  
|  
**31/03/19**

**Yr Athro M Rees**

**01/04/18**  
|  
**31/03/19** Aelod Cyswllt y Bwrdd a  
Chadeirydd (Fforwm Proffesiynol  
Gofal Iechyd)

**Ms N Stubbins**

**01/04/18**  
|  
**31/05/18** Aelod Cyswllt o'r Bwrdd a  
Chyfarwyddwr Gwasanaethau  
Cymdeithasol

**Ms M Edwards**

**01/06/18**  
|  
**31/03/19** Aelod Cyswllt o'r Bwrdd a  
Chyfarwyddwr Gwasanaethau  
Cymdeithasol





## **Amcan cyffredinol yr Elusen yw darparu cefnogaeth ychwanegol er budd staff a chleifion o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn unol â dymuniadau'r rhoddwyr.**

Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Elusen yn parhau i godi ymwybyddiaeth staff o argaeledd cronfeydd, a'r mecanweithiau ar gyfer cael mynediad atynt.

Er mwyn sicrhau bod arian yr Elusen yn cael ei wario'n dda, ac yn bodloni'r amcanion, mae pob cais am grantiau dros £5,000 yn gofyn am gymeradwyaeth gan un ai'r Grŵp Cynghori Cronfeydd Elusennol neu'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, sy'n Bwyllgor y Bwrdd Iechyd llawn.

Sefydlwyd Grŵp Cynghori Cronfeydd Elusennol ar ddechrau 2016, i graffu ymhellach ar geisiadau.

Mae'r Grŵp Cynghori yn is-bwyllgor o'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, ac mae ganddo aelodaeth eang, yn cynnwys staff meddygol, rheolwyr gwasanaeth a chynrychiolwyr cleifion.

Ar gyfer ceisiadau rhwng £5,001 a £25,000 mae gan y Grŵp Cynghori awdurdod dirprwyedig gan y Pwyllgor i wneud penderfyniadau ar gymeradwyo neu fel arall. Ar gyfer ceisiadau dros £25,000, bydd y Grŵp Cynghori yn rhoi sylwadau i'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol ystyried i helpu i lywio eu penderfyniadau.

Mae gofyn i ymgeiswyr ddarparu manylion ar fanteision gwasanaeth allweddol a ffyrdd o'u mesur, risgiau a lliniariadau, a sut mae'r cynnig yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd.

### **Tîm Cefnogi Elusen**

Bu i'r Tîm Cefnogi Awyr Las dyfu eleni.

Ymunodd dau aelod newydd rhan amser â'r tîm i helpu i sicrhau bod yr Elusen yn gallu parhau â'i Addewid Codi Arian.

Mae'r Tîm Cefnogi yn blaenoriaethu perthnasau tymor hir gyda chefnogwyr, ac mae'r tîm yn anelu at sicrhau bod pob rhoddwr yn cael y mwyaf allan o'u hymwneud â'r elusen.

Mae'r Tîm Cefnogi wedi helpu dros 100 o wahanol unigolion sy'n codi arian a grwpiau cymuned gwahanol i drefnu digwyddiadau a gweithgareddau codi arian hwyliog, diogel a chynnaladwy dros y flwyddyn, ac mae aelodau'r tîm wedi rhoi cyngor a chefnogaeth i elusennau allanol sy'n cefnogi gwasanaethau gofal iechyd BIPBC yn annibynnol.

Mae'r tîm wedi ymgysylltu'n rhagweithiol â newidiadau rheoleiddio a chyfreithiol parhaus, o GDPR, i adolygiadau Rheolydd Codi Arian.

Mae'r Tîm Cefnogi wedi mabwysiadu perthnasau cryf gydag Elusennau GIG eraill i rannu arferion gorau a gweithio gyda'i gilydd ble bo'n bosibl. Ni dderbyniodd yr Elusen unrhyw gwynion swyddogol sy'n gysylltiedig â chodi arian yn y flwyddyn ddiwethaf, er y cyflwynodd y Tîm Cefnogi weithdrefnau diolch newydd yn dilyn adborth gan roddwyr sy'n ymwneud ag amser y mae'n cymryd weithiau i dderbyn cydnabyddiaeth ar ôl i rywun roi.

Mae'r Tîm Cefnogi Elusen yn parhau i wneud newidiadau i brosesau a phartneriaethau gyda thimau eraill o fewn BIPBC i sicrhau gofal cefnogwyr gorau i bawb.

Nid yw Tîm Cefnogi Awyr Las wedi datgelu unrhyw fethiant i gydymffurfio â Rheoliadau Codi Arian gan staff neu wirfoddolwyr Awyr Las yn 2018/19.

Mae'r Tîm Cefnogi Awyr Las wedi dewis peidio â chontractio cyfranogwyr proffesiynol neu fasnachol; mae'r pwyslais yn 2018/19 wedi bod ar uwchsgilio aelodau o'r Tîm Cefnogi, a datblygu criw ymroddgar, angerddol i arwain gwirfoddolwyr a chefnogwyr, a'u cefnogi.



## Rhoi grantiau

Mae Awyr Las yn rhoi grantiau o'i gronfeydd cyfyngedig a heb gyfyngiad. Mae'r cronfeydd hyn yn cael eu rhannu ymhellach yn gronfeydd amhenodol (cyffredinol) a chronfeydd penodol (a glustnodwyd).

1. Cronfeydd amhenodol - Mae'r cronfeydd hyn yn cael eu derbyn gan yr Elusen, heb unrhyw ddewis penodol yn cael eu mynegi gan roddwyr. Maent yn cael eu defnyddio i ariannu pethau sydd un ai eu hangen ar draws y rhanbarth, neu mewn meysydd/gwasanaethau nad oes ganddynt eu cronfeydd eu hunain. Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid- Cyllid Gweithredol yn gweithredu fel y Cynghorydd Cyllid ar gronfeydd amhenodol, ac felly'n gallu awdurdodi gwariant hyd at £5,000. Mae cronfeydd amhenodol wedi bod yn cynyddu mewn gwerth yn sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hwn yn her barhaus ar gyfer yr Elusen, gan ei fod yn cyfyngu'r pethau y gellir eu hariannu ble nad oes cyllid penodol addas.

2. Cronfeydd penodol- O fewn Awyr Las, mae'r rhan fwyaf o roddion yn eistedd yn un o'r 40+ o gronfeydd penodol sy'n cyd-fynd â meysydd a/neu wasanaethau penodol. Mae gan bob cronfa o leiaf un Cynghorydd Ariannol, sy'n gweithredu fel y llofnodwr awdurdodedig ar y gronfa ar gyfer nwyddau a brynir hyd at £5,000. Mae Cynghorwyr Cronfeydd yn derbyn datganiadau misol sy'n amlinellu'r incwm a gwariant y gronfa. Mae Cynghorwyr Cronfeydd yn gyfrifol am sicrhau bod y gwariant y maent yn ei awdurdodi o'u cronfeydd yn briodol ac yn gweddu gydag amcan y gronfa, a'r Elusen.

Ar gyfer bob gwariant dros £5,000, mae cynllun dirprwyo yn ei le ble mae angen cymeradwyaethau ychwanegol gan yr uwch dîm ar gyfer yr ardal hon yn y Bwrdd Iechyd, a'r Pwyllgor Cronfeydd Elusennol (wedi'i ddirprwyo i'r Grŵp Cynghori Cronfeydd Elusennol ar gyfer ceisiadau £25,000 a llai). I sicrhau bod ceisiadau yn cael eu hadolygu a'u hasesu yn llawn ochr yn ochr ag amcanion yr elusen.

O ran cynllunio gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn, ac wrth ystyried ceisiadau ar gyfer cyllideb grant, mae'r ymddiriedolwyr bob amser yn ystyried arweiniad y Comisiwn Elusennau ar fudd y cyhoedd.





# Crynodeb ariannol



**Mae'r ffigyrau canlynol yn cael eu cymryd o'r cyfrifon llawn a gymeradwywyd ar 4 Hydref 2019, sy'n adroddiad archwilio diamed. Dylid darllen y cyfrifon yn llawn os oes angen mwy o fanylion. Mae'r rhan hon o adroddiad blynyddol yr ymddiriedolwyr yn rhoi sylwadau ar nodweddion allweddol y cyfrifon hyn. Mae'r cyfrifon llawn wedi cael eu logio gyda'r Comisiwn Elusennol.**

Mae bron holl incwm yr Elusen yn dod o ymdrechion gwirfoddol staff y GIG a'r cyhoedd.

Eleni, bu i roddion gynhyrchu £969,000 - 48% o gyfanswm incwm yr Elusen.

Roedd gweithgareddau codi arian yn 15% o gyfanswm incwm yr Elusen (£306,000).

Roedd cymynroddion yn ffurfio 33% o incwm yr Elusen (£675,000).

Roedd rhoddion, gweithgareddau codi arian a chymynroddion yn cyfrif am 96% o incwm yr Elusen eleni (£1,950,000).


Mae buddsoddi cronfeydd nad oedd eu hangen yn syth gan yr Elusen wedi cynhyrchu £73,000 o enillion, sydd cyfwerth â 4% o gyfanswm incwm Awyr Las.

Drwy gefnogi digwyddiad codi arian cyfredol, neu drefnu un eu hunain gyda gwybodaeth a chymeradwyaeth gan y Tîm Cefnogi Codi Arian, mae miloedd o unigolion wedi cael hwyl wrth godi arian i Awyr Las dros y flwyddyn ddiwethaf.

Bu i wirfoddolwyr ymroddgar, gyda chefnogaeth y Tîm Cefnogi Codi Arian, drefnu cannoedd o ddigwyddiadau 'er budd'; o bobi cacennau bach i ginio mawreddog ar raddfa fawr eleni, a bu i gefnogwyr gymryd rhan mewn digwyddiadau a heriau a drefnwyd ar draws y byd.

## CYFANSWM INCWM 2018/19

£2,023,000



**RHODDION [48%]**

**CYMYNRODDION [33%]**

**DIGWYDDIADAU CODI ARIAN [15%]**

**BUDDSODDIADAU [4%]**

## lechyd ariannol

Dengys asedau a rhwymedigaethau Awyr Las ar 31 Mawrth 2019 isod, o'i gymharu â'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2018.

Gellir cael manylion pellach yn yr adran datganiadau ariannol.

### Balance Sheet as at 31 March 2019

|   | Note | Unrestricted funds<br>£000 | Restricted Income funds<br>£000 | Total<br>31 March<br>2019<br>£000 | Total<br>31 March<br>2018<br>£000 |
|---|------|----------------------------|---------------------------------|-----------------------------------|-----------------------------------|
| <b>Fixed assets:</b>                                    |      |                            |                                 |                                   |                                   |
| Tangible assets   | 14   | 135                        | 0                               | 135                               | 135                               |
| Investments   | 15   | 4,415                      | 3,547                           | 7,962                             | 7,572                             |
| <b>Total fixed assets</b>                               |      | <b>4,550</b>               | <b>3,547</b>                    | <b>8,097</b>                      | <b>7,707</b>                      |
| <b>Current assets:</b>                                  |      |                            |                                 |                                   |                                   |
| Debtors   | 16   | 198                        | 154                             | 352                               | 841                               |
| Cash and cash equivalents                               | 17   | 511                        | 399                             | 910                               | 876                               |
| <b>Total current assets</b>                             |      | <b>709</b>                 | <b>553</b>                      | <b>1,262</b>                      | <b>1,717</b>                      |
| <b>Liabilities:</b>                                     |      |                            |                                 |                                   |                                   |
| Creditors: Amounts falling due within one year          | 18   | (828)                      | (645)                           | (1,473)                           | (1,799)                           |
| <b>Net current assets / (liabilities)</b>               |      | <b>(119)</b>               | <b>(92)</b>                     | <b>(211)</b>                      | <b>(82)</b>                       |
| <b>Total assets less current liabilities</b>            |      | <b>4,431<sup>1</sup></b>   | <b>3,455</b>                    | <b>7,886</b>                      | <b>7,625</b>                      |
| Creditors: Amounts falling due after more than one year | 18   | (27)                       | (21)                            | (48)                              | (28)                              |
| <b>Total net assets / (liabilities)</b>                 |      | <b>4,404</b>               | <b>3,434</b>                    | <b>7,838</b>                      | <b>7,597</b>                      |
| <b>The funds of the charity:</b>                        |      |                            |                                 |                                   |                                   |
| Restricted income funds                                 | 21   |                            | 3,434                           | 3,434                             | 3,282                             |
| Unrestricted income funds                               | 21   | 4,404                      |                                 | 4,404                             | 4,315                             |
| <b>Total funds</b>                                      |      | <b>4,404</b>               | <b>3,434</b>                    | <b>7,838</b>                      | <b>7,597</b>                      |

Mae buddsoddiadau asedau sefydlog yn fuddsoddiadau mewn stociau a chyfranddaliadau a ddyfynnwyd. Mae asedau cyfredol net yn cynrychioli arian ac arian sy'n ddyledus i'r Elusen, wedi tynnu arian sy'n ddyledus i eraill gan yr elusen ac unrhyw arian sy'n ddyledus (ymrwymiadau sy'n cael eu gwneud ar gyfer cyllid grant nad ydynt wedi cael eu gwario eisoes). Mae credydwy'r sy'n methu ar ôl mwy na blwyddyn yn cynrychioli ymrwymyiadau a wneir ar gyfer cyllid grant ble mae'r cynllun yn rhedeg am fwy na blwyddyn. Mae cronfeydd penodol cyfyngedig yn cynrychioli arian a gedwir gan yr elusen, a ellir ei ddefnyddio at ddibenion penodol yn unig. Mae cronfeydd penodol heb eu cyfyngu yn cynrychioli'r 400 a mwy o gronfeydd penodol sy'n cael eu dynodi i feysydd a/neu wasanaethau penodol. Maent wedi cael eu creu yn unol ag adran 90 a 91 o Ddeddf Gwasanaeth Lechyd Gwladol 1977 sy'n gofyn bod yr ymddiriedolwyr yn parchu, cyn belled â'i bod yn ymarferol, bwriadau penodol y rhodd a dderbyniwyd drwy wardiau, adrannau ac arbenigeddau. Drwy benodi cronfeydd, mae ymddiriedolwyr yn sicrhau bod y rhoddion hynny yn cael eu sianelu tuag at ddibenion elusennol yn y meysydd hynny. Mae Cronfeydd Elusennol yn cynrychioli'r cronfeydd hynny sydd ar gael i'w dosbarthu gan yr ymddiriedolwyr yn ôl eu disgrisiwn.



# Dadansoddiad Risg



## Rheoli risg

Fel rhan o gyfarfodydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol sy'n cael eu cynnal o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, mae'r ymddiriedolwyr yn ystyried y prif risgiau sy'n wynebu Awyr Las.

Mae'r Pwyllgor wedi adolygu systemau ac wedi dynodi camau i liniaru'r risgiau hynny. Mae pum risg mawr neu gymedrol wedi cael eu dynodi, ac mae trefniadau wedi cael eu

### 1. Digwyddiadau Codi arian

Mae pedwar thema dan y risg hwn: risg o ddiffyg cydymffurfiaeth â rheoliadau codi arian; y risg o ymwneud â thrydydd partion; y risg nad yw'r elusen yn ymwybodol o'r holl ddigwyddiadau codi arian sy'n cael eu cynnal yn ei enw; a'r risg nad yw'r holl brosesau sylfaenol yn eu lle i sicrhau'r gefnogaeth orau posibl.

Er mwyn lliniaru'r risg cyntaf hwn, mae'r Elusen wedi dod yn aelod o'r Rheolydd Codi Arian, ac yn aelod o Gymdeithas Elusennau'r GIG.

Anogir aelodau o'r Tîm Cefnogi Elusen i fynychu gweithdai a gwneud hyfforddiant ychwanegol i sicrhau bod yr holl aelodau yn ymwybodol o arweiniad a rheoliad newydd a phresennol.

Mae'r Elusen yn gweithio gyda nifer o drydydd partion, yn cynnwys unigolion gwirfoddol sy'n codi arian. Er mwyn sicrhau bod yr holl drefniadau gyda'r trydydd partion hyn yn glir ac yn cael eu hamlinellu ar ddechrau'r cydweithio, mae trydydd partion a chynrychiolwyr o Dîm Cefnogi'r Elusen yn arwyddo Cytundeb Cydweithio (CWA) sy'n amlinellu telerau'r berthynas.

Mae gan yr Elusen nifer o gefnogwyr, nifer ohonynt yn trefnu digwyddiadau codi arian er budd yr Elusen. Mae'r Tîm Cefnogi Elusen yn parhau i fabwysiadu perthynas waith dda â staff ar draws Gogledd Cymru i sicrhau cysylltiadau cyfathrebu da â staff, y cyhoedd, a rhoddwyr i wneud yn siŵr bod unigolion yn ymwybodol o'r angen i ofyn am gymeradwyaeth gan y Tîm Cefnogi Elusen am unrhyw ddigwyddiadau codi arian sy'n cael eu cynnal yn enw'r Elusen.

Mae cynllun stiwardiaeth a marchnata diwygiedig wedi cael ei greu sy'n cael ei weithredu dros y 2 flynedd nesaf.

Mae'r cynllun wedi'i ddylunio i helpu sicrhau bod pob cefnogwr yn cael y gydnabyddiaeth y maent yn ei haeddu, ac yn cael gwybod am sut mae eu rhoddion yn gwneud gwahaniaeth os ydynt yn dewis cadw mewn cysylltiad â'r Tîm Cefnogi Elusen.

### 2. Cynghorwyr Cronfeydd

Mae Cynghorwyr y Cronfeydd Elusennol yn gweithredu ar ran yr Ymddiriedolwyr wrth wneud penderfyniadau penodol, ond nid ydynt bob amser yn ymwybodol o ganllawiau'r Comisiwn Elusennol y maent angen eu dilyn. Mae hyn yn creu risg llywodraethu ar gyfer yr Elusen.

Er mwyn lliniaru'r risg, mae Llawlyfr i Gynghorwyr Cronfeydd wedi cael ei ddatblygu i ddarparu arweiniad a chefnogaeth i Gynghorwyr Cronfeydd i gyflawni eu dyletswyddau. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys Cytundeb Atebolrwydd i bob Cynghorydd

Cronfeydd sy'n sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn cael eu deall a'u derbyn. Mae'n rhaid i bob Cynghorydd Cronfeydd ymgymryd ag Adolygiad Blynyddol o'u cronfa. Mae rhaglen dreigl o hyfforddiant Cynghorydd Cronfeydd wedi cael ei sefydlu i liniaru risgiau llywodraethu ar gyfer yr elusen.

### 3. Apeliadau

Mae risg y gallai'r elusen roi grantiau i, a chodi arian ar gyfer eitemau a gwasanaethau nad ydynt yn flaenoriaeth strategol.

Mae tîm Cefnogi Elusen wedi lansio cyfres o grantiau:

- Y Grant Mi Fedraf
- Grantiau Calonnau a Meddyliau
- Y Grant Profiad Staff

Pwrpas y rhaglenni grant hyn yw dynodi blaenoriaethau i'w hariannu yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r blaenoriaethau sy'n cael eu cynrychioli gan staff y rheng flaen yna yn cael eu categorio yn 4 apêl:

- Pobl hŷn
- Plant a phobl ifanc
- Pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl
- Teuluoedd a effeithir gan ganser

Efallai y bydd yr apeliadau yn cefnogi rhaglenni ataliol yn ogystal â chyfleusterau newydd, offer a gwasanaethau ychwanegol ar gyfer gofal cychwynnol a lleoliadau cymuned, yn ogystal ag Ysbyty Glan Clwyd, Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Maelor Wrecsam.

### 4. Ymgysylltu â Staff

Mae gweithlu sydd wedi ymrwymo yn hanfodol i lwyddiant yr elusen. Mae risg bod staff wedi ymddieithrio, neu nad ydynt yn ymwybodol o'r elusen, ac felly nad ydynt yn ei hyrwyddo'n rhagweithiol â chleifion a rhoddwyr posibl.

Er mwyn lliniaru hyn, mae cynllun gweithredu wedi cael ei gyflwyno i roi gwybod i'r holl staff, ac i'w cynnwys.

Wrth galon y cynllun hwn, mae Pencampwyr Elusen sydd ar lefel ward, adran neu ardal leol yn gallu helpu i hyrwyddo effaith yr elusen.

### 5. Buddsoddiadau

Mae cyfran fawr o asedau'r elusen yn cael eu cadw o fewn y portffolio buddsoddi. Mae risg bod y portffolio yn disgyn yn sylweddol mewn gwerth, ac yn amharu'n sylweddol ar allu'r elusen i gefnogi prosiectau'r dyfodol.

Mae monitro buddsoddiadau a pherfformiad y portffolio angen bod yn broses barhaus felly. Mae portffolio buddsoddi'r elusen yn cael ei fonitro yn fisol gan y Tîm Cefnogi Elusen, ac yn chwarterol gan y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol.

Mae'r polisi buddsoddi yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor yn flynyddol, ar y cyd â'r Rheolwyr Buddsoddi, i sicrhau ei bod yn parhau yn berthnasol i strategaeth tymor hir yr elusen.





# Cynlluniau'r Dyfodol



**BUDDIOLWYR**



**CYMWYNASWYR**



**BENDIGEDIG**



**CYMWYNASGAR**

Mae cynlluniau strategol yr elusen wedi'u hamlinellu yn Strategaeth Awyr Las ar gyfer 2016 i 2021. Mae'r strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd pedwar piler yr Elusen:



## **Buddiolwyr:**

Y cleifion a'r teuluoedd rydym yn ei gwasanaethu



## **Cymwynaswyr:**

Y rhoddwyr y mae eu rhoddion yn sicrhau y gall yr Elusen barhau i wella darpariaeth gofal iechyd



## **Bendigedig:**

Staff y GIG ar draws Gogledd Cymru



## **Cymwynasgar:**

Y gwirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i gefnogi'r Elusen

Dyma'r pedwar piler wrth galon holl gynlluniau Awyr Las i'r dyfodol.



# Prif Amcanion

## Prif amcanion yr Elusen yw helpu:

1. Creu newid trawsnewidiol i'r rhai mwyaf bregus ar draws y rhanbarth
2. Cefnogi newid sy'n creu effaith i gleifion a'u teuluoedd ar lefel leol

### Newid Trawsnewidiol

Mae'r Elusen yn anelu at flaenoriaethu rhaglenni sy'n helpu i wella iechyd a lles y rhai mwyaf bregus ar draws y rhanbarth. Mae Awyr Las yn darparu cefnogaeth i bob claf a defnyddiwr gwasanaeth, ond er mwyn creu newid trawsnewidiol, mae angen mwy o bwyslais ar:

- Wasanaeth pobl hŷn
- Plant
- Iechyd Meddwl

### Newid sy'n creu Effaith

Mae'r Tîm Cefnogi Elusen yn gweithio gyda staff gweithredol, cleifion a'u gofalywyr i ddynodi gofynion lleol (yn cynnwys offer a chyfleusterau newydd; prosiectau arbennig; ymchwil a rhaglenni addysg) fel bod rhoddion drwy'r Elusen yn gallu helpu cefnogi newid sy'n creu effaith i gleifion a'u teuluoedd ar lefel leol.

Mae'r Tîm Cefnogi Awyr Las hefyd yn canolbwyntio ar gyflawni amcanion gweithredol allweddol, a amlinellir yn Strategaeth Awyr Las ar gyfer 2016-21, sydd ar gael i'w darllen yn: [awyrilas.org.uk/cy/about-awyr-las](http://awyrilas.org.uk/cy/about-awyr-las).



## Gwelededd

Bu i'r Elusen ymgymryd â nifer o weithgareddau yn ystod y flwyddyn i gynyddu pa mor weledol yw Awyr Las, ac ymwybyddiaeth ohoni.

Fel rhan o hyn, defnyddiwyd Nel Del, masgot Awyr Las, yn helaeth drwy 2018-19 i ymgysylltu â staff y GIG, cefnogwyr corfforaethol a'r gymuned ehangach.



# Polisi Cronfa wrth Gefn



**Cronfeydd wrth gefn sy'n rhan o gronfeydd yr Elusen nad ydynt wedi'u cyfyngu sydd ar gael i'w gwario at unrhyw ddibenion yr Elusen.**

Mae'r polisi cronfa wrth gefn yn egluro pam fod elusen yn cadw swm penodol o gronfa wrth gefn, a dylai ystyried amgylchiadau ariannol yr Elusennol a ffactorau perthnasol eraill.

I sefydlu lefel targed yr Elusen o gronfeydd wrth gefn, ystyriwyd nifer o ffactorau:

- Lefelau incwm a gwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r blynyddoedd nesaf.
- Lefelau gwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r blynyddoedd nesaf.
- Anghenion a chyfleoedd i'r dyfodol, ymrwymïadau a risgiau.

Mae hyn yn cynnwys edrych ar gynlluniau'r dyfodol, prosiectau neu anghenion gwario eraill na ellir eu bodloni o incwm cyllideb un flwyddyn.

O ystyried y rhain, dyma bolisi cronfa wrth gefn yr Elusen ar gyfer 2018/19.

**Mae gan y polisi cronfa wrth gefn yr amcan o sicrhau bod gan yr Elusen ddigon o gronfeydd ar gael i gynnal hylifedd, i ymdrin â risgiau na ragwelwyd, a darparu cyfleoedd i'r dyfodol.**

Mae'r Elusen yn dibynnu'n gryf ar incwm gan roddwyr, digwyddiadau codi arian a chymynroddion. Mae'r rhain yn ffynonellau anrhagweladwy sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Felly, mae'r Elusen angen cronfa wrth gefn digonol i allu parhau â'i weithgareddau mewn achos o amrywiad yn ei hincwm.

**Mae gan yr Elusen lefel targed cronfa wrth gefn o £3,060,000.**

Mae hyn yn seiliedig ar y cyfrifiad canlynol, gyda ffigurau cyfartalog wedi'u cymryd o'r cyfrifon a archwilwyd ar gyfer y tair blynedd diwethaf.

- Costau gweinyddu un flwyddyn (costau cefnogi, costau codi arian, a chostau rheoli buddsoddiad).
- 25% o werth y buddsoddiadau.
- 25% o wariant gweithgareddau a ariennir gan grantiau.
- Bydd y lefel targed ar gyfer cronfa wrth gefn yn cael ei hailasesu yn flynyddol.

Bydd yr Ymddiriedolwr yn adolygu y gronfa gwrioneddol wrth gefn yn erbyn y targed drwy gydol y flwyddyn, i sicrhau bod cronfa ddigonol yn cael ei chadw o fewn yr elusen, wrth barhau i ddefnyddio cronfeydd o fewn cyfnod rhesymol o'i dderbyn.

Mae Awyr Las yn un o dros 250 o elusennau sy'n gysylltiedig â'r GIG yng Nghymru a Lloegr sy'n gymwys i ymuno â'r Gymdeithas Elusennau'r GIG, a elwir yn NHS Charities Together.

**NHS CHARITIES  
TOGETHER**

Fel elusen sy'n aelod o NHS Charities Together, mae gan Awyr Las y cyfle i drafod materion sydd o bryder cyffredin, a chyfnewid gwybodaeth a phrofiadau, i ymuno â'i gilydd i lobio adrannau llywodraeth ac eraill, ac i gymryd rhan mewn cynadleddau a seminarau sy'n cynnig cefnogaeth ac addysg ar gyfer staff Tîm Cefnogi Elusen.

## Perthynas â'r gymuned ehangach

Mae'r gefnogaeth a roddir drwy Awyr Las ac elusennau eraill sy'n cefnogi ysbytai a gwasanaethau gofal iechyd cymuned Gogledd Cymru yn uniongyrchol yn cael effaith fawr ar gleifion, a hefyd ar staff. Mae Tîm Cefnogi Awyr Las a gwirfoddolwyr yn parhau i greu perthnasoedd cryf ag aelodau staff y GIG a sefydliadau lleol a busnesau sy'n chwarae rôl hanfodol yn llwyddiant yr Elusen.

## Partïon cysylltiedig

Mae aelodau o'r Bwrdd Iechyd (ac uwch staff eraill) yn gwneud penderfyniadau ar faterion yr Elusen a'r Bwrdd Iechyd ond maent yn ymdrechu i gadw buddiannau'r ddau ar wahân. Mae'r Elusen yn darparu mwyafrif o'r grantiau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Tîm Cefnogi Awyr Las yn goruchwyllo rhaglenni grant Awyr Las ac yn darparu cefnogaeth a chyngor i nifer o gefnogwyr yr elusen. Yn ogystal â hynny, rhoddir cefnogaeth i elusennau lleol annibynnol sy'n ariannu offer a gwasanaethau arbenigol, megis 'Cyfeillion Ysbyty' a 'Gwasanaeth Gwirfoddol y Maelor'.

**Yn 2018/19, bu i 19 o'r elusennau annibynnol hyn roi £1,246,160 er budd gwasanaethau iechyd BIPBC.**

Nid yw'r rhoddion a roddir i wasanaethau BIPBC gan y sefydliadau hyn yn cael eu cynnwys yng nghyfrifon Awyr Las. Er hynny, roeddem yn credu ei bod yn bwysig bod yr elusennau hyn yn cael eu cydnabod yn yr adroddiad, am eu cyfraniad gwerthfawr i wasanaethau BIPBC, a'u cymunedau lleol.

Fel Is-Arlywydd Attend, y Gymdeithas Genedlaethol sy'n cefnogi Cynghrair Cyfeillion, mae'n anrhydedd fy mod wedi cyfarfod nifer o aelodau o'r grwpiau lleol hyn dros y flwyddyn, ac rwyf wedi cael fy syfrdanu i weld y gwaith gwych y mae eu gwirfoddolwyr yn ei wneud. Maent yn ddinasyddion gwych sydd â gallu sylweddol a chalonnau aur.

Ar ran BIPBC, hoffwn ddiolch am bopeth y mae'r elusennau gwych hyn yn ei wneud.

*Barry Jones*



Diolch yn fawr

**Y GWIR ANRHYDEDDUS ARGLWYDD BARRY JONES P.C.**

**LLYWYDD ANRHYDEDDUS AWYR LAS A DIRPRWY LYWYDD ATTEND**



## **BETSI CADWALADR UNIVERSITY HEALTH BOARD CHARITY & OTHER RELATED CHARITIES**

### **ACCOUNTS FOR THE YEAR ENDED 31 MARCH 2019**

The accounts (financial statements) have been prepared in accordance with the Statement of Recommended Practice: Accounting and Reporting by Charities preparing their accounts in accordance with the Financial Reporting Standard applicable in the UK and Republic of Ireland (FRS 102) issued on 16 July 2014 and the Charities Act 2011 and UK Generally Accepted Practice as it applies from 1 January 2015.

#### **Statutory Background**

The Betsi Cadwaladr University Local Health Board is the corporate trustee of the Charity under paragraph 16c of Schedule 2 of the NHS and Community Care Act 1990.

The Trustees have been appointed under s11 of the NHS and Community Care Act 1990.

Awyr Las, the working name of the Betsi Cadwaladr University Health Board Charity and other related Charities, is a registered charity and is constituted under a trust deed dated 23rd September 2010. Within the Charity group registration there are two subsidiary charities:

- Betsi Cadwaladr University Health Board Charity; and
- The North Wales Cancer Appeal.

#### **Main Purpose of the Funds Held on Trust**

The main purpose of the Charity is to apply income for any charitable purposes relating to the National Health Service wholly or mainly for the services provided by the Betsi Cadwaladr University Local Health Board.



## Statement of Financial Activities for the year ended 31 March 2019

|   |      | Unrestricted<br>funds | Restricted<br>Income<br>funds | Total<br>Funds<br>2018-19 |
